



---

# **ADRODDIADAU ARHOLWYR TAG**

---

**TAG (Newydd)  
DAEARYDDIAETH  
UG/Uwch**

**HAF 2018**

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:  
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?!=cy>

### **Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

### **Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

<b>Uned</b>	<b>Tudalen</b>
Uned 1	1
Uned 2	8
Uned 3	11
Uned 4	19
Uned 5	25

# TAG UG A SAFON UWCH DAEARYDDIAETH

## Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2018

### Uwch Gyfrannol/Uwch

#### UNED 1: TIRWEDDAU NEWIDIOL

#### Arsylwadau cyffredinol

Fel yn 2017, roedd y thema arfordirol yn fwy poblogaidd na'r testun rhewlifol, ond mae'n ymddangos bod nifer y canolfannau sy'n addysgu am rewlifo wedi cynyddu.

Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn anghyfarwydd â'r geiriau gorchymyn, ac roedd hyn yn aml yn cyfyngu ar eu marciau. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn barod i adnabod geiriau gorchymyn ac ymateb iddynt yn y modd cywir fel y gellir cyfeirio eu gwybodaeth at yr amcan asesu perthnasol. Cyfeiriwch at y ddogfen Canllawiau Addysgu a'r Canllawiau Asesu ar-lein i gael manylion pellach am eiriau gorchymyn CBAC TAG Daearyddiaeth.

Roedd astudiaethau achos yn aml yn absennol neu'n syml iawn, e.e. adnabod lleoliad. Roedd gan yr atebion gorau astudiaethau achos integredig a datblygedig a oedd wedi'u defnyddio'n briodol i ateb y cwestiwn. Mae angen gwneud mwy nag ailchwydu astudiaethau achos i fodloni gofynion y cwestiwn e.e. CW7b.

Gallai canolfannau elwa o roi ymarfer i ymgeiswyr ar gwestiynau 8 marc sy'n rhoi sylw i AA1 a hefyd AA2. Yn aml, nid yw'r elfen AA2 yn cael digon o ffocws yn strwythur yr ateb ac mae'n rhaid i'r arholwyr geisio dehongli beth sy'n cael ei ddweud fel ymateb i'r gorchymyn AA2.

#### Adran A

- Cw.1 (a) (i)** Atebwyd hwn yn dda ar y cyfan, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu defnyddio gwybodaeth a gyflwynwyd ar fformat tabl. Roedd yr atebion gorau'n dadansoddi'r tabl drwy chwilio am batrymau prosesau ac yn cadw ffocws clir ar yr angen i ddisgrifio amrywiadau yn hytrach na dim ond tynnu data o'r tabl. Roedd y rhan fwyaf o'r atebion ar y lefel hon yn canolbwyntio ar naill ai ddisgrifio amrywiadau prosesau rhwng y lleoliadau neu archwilio amrywiadau prosesau o fewn lleoliad. Rhoddodd rhai gynnig ar gyfuniad o'r dulliau hyn. Roedd atebion da'n cyfeirio at y lleoliadau â'r canran uchaf ac isaf o bob proses, yn rhoi sylwadau am bwysigrwydd cymharol pob proses yng Ngogledd Norfolk neu'n archwilio pwysigrwydd prosesau ym mhob lleoliad. Roedd yr atebion a gafodd sgorau uchel yn defnyddio data ategol o'r adnodd yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd yr atebion llai llwyddiannus yn rhoi disgrifiad syml o bob llinell neu golofn yn y tabl, heb ddangos amrywiad, ac nid oedd hyn yn ateb y cwestiwn a osodwyd.
- (ii)** Roedd hwn yn gwestiwn anodd i'r ymgeiswyr, ac ychydig a gafodd 3 marc. Cafwyd y mwyaf o farciau am drafod twyni tywod, mathau o graig a chyfeiriadaeth yr arfordir. Fodd bynnag, gwelwyd camgymeriadau wrth gyfeirio at donnau (maint a chyrch) ac effaith erydiad gwynt – yr olaf o'r rhain eto'n adlewyrchu camddarllen y gair gorchymyn. Hefyd, cynigiodd rhai ymgeiswyr fwy nag un rheswm.

- (b)** Roedd yr atebion galluog i'r cwestiwn hwn yn aml yn archwilio tirweddau arfordirol a oedd o dan fygythiad gan erydiad neu lle'r oedd angen cadwraeth a rheolaeth. Roedd llawer wedi treulio cryn amser yn amlinellu'r materion, ac mewn rhai achosion roedd hon wedi cymryd mor hir nes bod yr atebion wedi methu ag archwilio'n llawn yr elfennau ar y cwestiwn a oedd yn ymwneud â gweithgareddau dynol a'u hasesu. Roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn edrych ar osod argorau a morgloddiau, rheoli twyni tywod, ailgyflenwi traethau ac encilio rheoledig. Roedd yr atebion yn canolbwyntio ar y Deyrnas Unedig yn bennaf, ond edrychodd nifer ar reoli riffiau cwrel gan ddefnyddio'r Barriff Mawr yn Awstralia fel astudiaeth achos. Roedd yr atebion gorau'n rhoi disgrifiad manwl o fecaneg y gweithgaredd ac yn defnyddio amrywiaeth o astudiaethau achos. Mewn atebion llai llwyddiannus, roedd angen mwy o ffocws ar y broses a manylion penodol i'r safle. Roedd yr asesiad yn aml yn rhy syml ac fel arfer yn ymwneud â llwyddiant y gweithgaredd i atal erydiad neu amddiffyn ecosystemau. Roedd rhai asesiadau da'n rhoi sylwadau ynglŷn â sut mae gweithgareddau dynol yn gallu bod yn fuddiol mewn un lleoliad ond achosi canlyniadau anffafriol yn rhywle arall. Anaml y cafodd gweithgareddau eu cymharu yn nhermau bod un yn fwy neu'n llai buddiol, ac ni ystyriwyd newid dros amser. Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar yr elfen AA2 wrth baratoi ymgeiswyr am yr arholiad. Roedd cryn dipyn wedi camddarllen y cwestiwn, gan arwain at drafodaeth ynghylch sut mae'r dirwedd arfordirol yn effeithio ar weithgareddau dynol. Roedd nifer yn troi'n ôl at ddisgrifio manylion yr astudiaeth achos a'u cymhwyso at y cwestiwn a osodwyd, gan ddangos diffyg dealltwriaeth o ofynion y cwestiwn. Byddai rhoi sylw i ddadansoddi cwestiynau wrth addysgu ac adolygu yn helpu ymgeiswyr i roi atebion mwy uniongyrchol.

- Cw.2 (a)**
- (i)** Ychydig o ymgeiswyr a gafodd farciau llawn am y cwestiwn hwn. Roedd yr atebion gorau'n rhoi disgrifiad uniongyrchol gan sôn fel arfer am ddwy o nodweddion egni uchel (clogwyni, pentiroedd, baeau neu lyfndiroedd tonnau) ac un egni isel (traethau). Cyfeiriwyd at y rhain ar y map gan roi naill ai enw neu gyfeirnod grid. Fodd bynnag roedd cryn dipyn yn ddryslyd ynglŷn ag egni uchel ac isel, ac erill yn methu â phennu'r math o egni ar gyfer y nodweddion a ddewiswyd. Mae angen i ymgeiswyr fod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio mapiau OS oherwydd roedd llawer yn ansicr ynglŷn â chyfeirnodau grid ac yn drysu rhwng dwyreiniaid a gogleddiaid. Roedd llawer yn camddarllen y symbolau er bod allwedd fanwl wedi'i rhoi. Roedd rhai'n drifftio i mewn i ddisgrifiad o'r prosesau dan sylw, sy'n dangos bod angen dadansoddi cwestiynau fel rhan o'r gwaith paratoi am yr asesiad.
- (ii)** Roedd y rhai a oedd yn deall ac yn cymhwyso cysyniad y system arfordirol yn gallu cael sgorau da. Roedd yr atebion hyn yn cymryd Traeth Mawr fel man cychwyn ac yn gweithio ymlaen neu'n ôl gan ddefnyddio dull systemau i drafod drifft y glannau, erydu arfordirol a dyddodiad yng nghyd-destun y map. Roedd rhai atebion yn methu â chydabod bod angen defnyddio'r adnodd, ac roedd y rhain yn trafod damcaniaeth gyffredinol yn hytrach na beth fyddai'n digwydd yn 900710. Arweiniodd hyn at atebion yn ymwneud â thafodau, barrau a thwyni tywod sydd ddim i'w gweld ar y map.

- (b)** Roedd llawer yn defnyddio braslun o'r dilyniant clogwyn – ogof – bwa - pentwr – stwmp i ateb y cwestiwn hwn, ac roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn glir, yn ddatblygedig ac yn gywir. Roedd y disgrifiadau testun hefyd yn aml yn fanwl. Roedd yr atebion yn aml yn dangos crap da ar y prosesau erydu a'u rôl o ran datblygu tiffurfiau erydol ond yn aml roedd yr astudiaethau achos yn enwi lle heb roi dim gwybodaeth ategol. Roedd yr atebion gorau'n integreiddio deunydd yr astudiaeth achos yn fanylach. Roedd asesiadau'n aml ar ffurf sylw am raddfa dylanwad y prosesau, ac yn cael eu mynegi'n syml fel 'pwysig' neu 'fwyaf/lleiaf' dylanwadol. Er bod sôn am ddaearreg yn aml, anaml y cafodd ei defnyddio i asesu rôl y broses ac yn aml roedd rhaid i'r arholwr gasglu hyn o frawddegau megis 'gweithred hydrologig yn gweithio ar ffawtiau'. Roedd rhai wedi enwi prosesau eraill (e.e. gwynt a hindreuliad) a gwneud gosodiadau cymharu syml. Ychydig a oedd yn gallu archwilio rôl gymharol gwahanol brosesau ar un neu fwy o dirffurfiau. Gallai'r ymgeiswyr baratoi'n well am ofynion yr elfen AA2 ar y cwestiwn drwy ddefnyddio'r cynlluniau marcio fel rhan o'u gwaith dadansoddi cwestiynau.

- Cw.3 (a)**
- (i)** Fel CW1(a) (i) roedd llawer o'r ymgeiswyr yn hyderus wrth ddefnyddio data mewn tabl. Roedd atebion da yn canolbwyntio ar y gofyniad i gymharu nodweddion gwaddodol. Roedd y rhain yn rhoi disgrifiadau datblygedig a oedd yn archwilio tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng canrannau'r mathau o waddod rhwng yr esgeiriau neu oddi mewn iddynt. Roedd atebion da'n cyfeirio at yr esgeiriau â'r canran uchaf ac isaf o bob math o waddod neu'n rhoi sylwadau am bwysigrwydd cymharol pob math o waddod yn yr esgeiriau. Roedd yr atebion a gafodd sgorau uchel yn defnyddio data ategol o'r adnodd yn effeithiol. Roedd rhai atebion yn dangos diffyg trefn ac yn rhoi disgrifiad syml o'r data heb ffocws ar gymharu, ac roedd eraill yn meddwl bod y rhifo 1-4 yn ddilyniannol ac yn methu ag ateb y cwestiwn.
- (ii)** Ychydig iawn o atebion da a roddwyd a oedd yn ateb y cwestiwn o safbwynt yr egni sydd ei angen i gludo gwaddod o wahanol feintiau. Roedd rhai'n gallu cymharu gallu iâ rhewlifol a dŵr tawdd i gludo gwahanol fathau o waddod, ond nid oedd hyn yn gyffredin. Roedd llawer yn disgrifio proses athreuliad a threulio gwaddod o raeon i silt, ond nid oedd hyn yn ateb y cwestiwn.
- (b)** Cafwyd rhai atebion da iawn a oedd yn edrych ar ffurfio pingoau. Roedd y rhain yn nodi pwysigrwydd iâ daear o ran ffurfio pingoau system agored a chaeedig ac yn rhoi asesiad da o'r gwahaniaethau rhwng y ddau o ran eu ffurf ac amodau iâ daear. Cafwyd atebion cystal yn archwilio tir patrymog ac yn cyfeirio at faint gwaddod, disgyrchiant ac ongl llethr fel ffactorau eraill a oedd yn bwysig o ran eu ffurfio. Roedd y dulliau hyn yn dangos dealltwriaeth fanwl o'r broses a hefyd yn cyfeirio'n uniongyrchol at rôl ffactorau eraill. Er bod astudiaethau achos penodol yn brin, cyfeiriwyd yn aml at leoliadau megis Delta Mackenzie. Roedd rhai ymgeiswyr yn drysu rhwng yr iâ rhewlifol sy'n gysylltiedig â ffurfio pyllau tegell ac iâ daear, ac roedd yr atebion hyn yn gyfyngedig. Roedd nifer sylweddol heb ddim gwybodaeth a dealltwriaeth am y pwnc ac yn troi'n ôl at bwysigrwydd erydiad rhewlifol i ffurfio cafnau rhewlifol a chymoedd ac ni chafodd y rhain sgôr da.

- Cw.4 (a)**
- (i)** Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn fel rheol yn well wrth roi sylw i nodweddion erydiad. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu adnabod a lleoli nodweddion fel cymoedd, cribau, brigau pyramidaidd a chafnau gan ddefnyddio enwau neu gyfeirnodau grid. Nid oeddent yn adnabod nodweddion dyddodiad cystal, ond cafwyd rhai atebion da a oedd yn dehongli'r llynnoedd rhewlifol fel bod wedi'u blocio gan farianau yn ogystal â'r grib ym mhen gogleddol Nant Ffrancon. Roedd yr atebion da'n rhoi sylw i'r llethrau sy'n llawn creigiau fel tystiolaeth o ddatblygu marian llusg. Roedd yn ymddangos bod rhai'n ddibrofiad wrth ddefnyddio mapiau OS ac yn methu ag adnabod nodweddion rhewlifol yn y dirwedd glasurol hon neu'n ansicr â chyfeirnodau grid ac yn drysu rhwng dwyreiniaid a gogleddiaid.
- (ii)** Yn gyffredinol, atebwyd hwn yn wael; roedd nifer mawr o'r atebion yn methu â chysylltu gwybodaeth am ffrydiau afrwydd â'r enghraifft ar y map. Roedd yr atebion gorau'n gallu nodi nad oedd Afon Ogwen yn ddigon mawr i ffurfio'r dyffryn lle mae wedi'i lleoli, ond ychydig a ffurfiodd y cysylltiad rhwng hyn a dyfnder a lled Nant Ffrancon. Roedd rhai'n cyfeirio at siâp y dyffryn, ond yn aml ni chafodd y cwestiwn ei ateb.
- (b)** Roedd yr atebion mwy galluog i'r cwestiwn hwn yn defnyddio GLOFs i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o broses rewlifol. Roedd llawer o'r atebion yn defnyddio astudiaethau achos o Nepal a Pheriw i amlinellu'n gryno beth sy'n achosi'r perygl cyn rhoi datblygiad clir o'r effeithiau ar y cymunedau agosaf neu rai pellach i ffwrdd. Er bod yr effeithiau'n aml wedi'u hamlinellu o safbwynt negyddol, roedd nifer o'r atebion yn sôn am effeithiau economaidd cadarnhaol cyflogaeth mewn cynlluniau rheoli i'r boblogaeth leol. Cafodd yr atebion hyn sgorau da wrth ystyried asesu AA2. Cafodd ymgeiswyr eraill eu hasesu am eu dadansoddiad o effeithiau demograffig, cymdeithasol ac economaidd anffafriol. Atebodd nifer o ymgeiswyr y cwestiwn drwy archwilio sut mae rhewlifoedd yn cynhyrchu nodweddion tirwedd, gan sôn yn aml am gafnau rhewlifol. Gwelwyd y rhain fel manau delfrydol i adeiladu cynlluniau pŵer trydan dŵr ac er bod yr atebion yn aml yn uniongyrchol, roeddent yn tueddu i ddangos diffyg ffocws o ran yr effeithiau gan sôn mwy am y ffynhonnell egni na chanlyniadau'r broses rewlifol. Ychydig a gyfeiriodd at werth y gwaddod a gynhyrchir gan brosesau rhewlifol. Roedd nifer o'r atebion wedi gwrthdroi'r cwestiwn gan edrych ar effaith gweithgareddau dynol ar brosesau rhewlifol, a chyfeirio'n bennaf at newid hinsawdd ac enciliad rhewlifol. Ni chafodd yr atebion hyn sgorau da.

## Adran B

- Cw.5 (a)**
- (i) Atebwyd hwn yn dda ar y cyfan, ac roedd yr atebion gorau'n ystyried y gorchymyn i ddisgrifio *tueddiadau*. Yma, roedd yr ymgeiswyr yn canolbwyntio ar nodweddion cyffredinol y lludw yn yr awyr gan ddisgrifio anwadaliad, brigau, hyd cymharol y cyfnodau o allyrru lludw ar y camau ffrwydrol, y gwahaniaethau cyfaint rhwng y camau ffrwydrol ac arllwysol ac anomaleddau. Roedd yr atebion hyn yn aml wedi'u hategu gan ddata ategol o'r adnodd. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi rhoi disgrifiad syml o'r graff cyfan a'r hyn yr oeddent yn ei weld, ac felly'n methu â nodi tueddiadau'n glir. Roedd atebion gwannach yn drifftio at ddisgrifio lafa a malurion mewn dŵr, ac eraill yn rhoi gwerthoedd data anghywir.
  - (ii) Roedd yr atebion gorau'n cymryd Ffigur 5a fel sail adeileddol eu hateb ac yn rhoi sylw i nodweddion perygl pob cam o'r echdoriad. Roedd yr atebion hyn yn esbonio'r prosesau a sut yr oeddent yn cynhyrchu peryglon, ac yn ategu eu dehongliad ag arsylwadau o'r adnoddau eraill a enwyd yn y cwestiwn. Roedd rhai atebion yn gyfyngedig am eu bod yn trin pob adnodd ar ei phen ei hun ac yn methu â chyfeirio at yr amrywiaeth o beryglon a ddangosir yn Ffigur 5a. Roedd nifer o atebion yn drifftio i mewn i drafodaeth gyffredinol am beryglon folcanig ynddynt eu hunain, yn hytrach na chyfeirio at yr adnoddau. Roedd llawer yn disgrifio sut roedd yr echdoriad yn digwydd yn hytrach na'r cysylltiad rhwng yr echdoriad a'r perygl sy'n ei ddilyn. Roedd nifer wedi camddechongli'r adnoddau yn enwedig 5a, lle'r oeddent yn meddwl bod malurion dŵr tawdd yn parhau drwy'r gweithgaredd, a 5ch.
- (b)** Roedd nifer o atebion da yn cyfeirio at Ddyffryn Hollt Dwyrain Affrica neu at Grib Canol yr Iwerydd i gael manylion ategol am brosesau. Gwelwyd defnydd da o derminoleg. Roedd yr atebion nodweddiadol ar y lefel hon yn sôn am y canlynol: ceryntau darfudiad a lledaenu; dargyfeiriad platiau; tyniad slabiau (er bod hyn yn aml yn anghymesur o hir a heb ymwneud â gweithgaredd ar ymylon dargyfeiriol); MOR/MAR a holltau sy'n gysylltiedig â theneuo'r gramen; 'toddi' generig; llosgfynyddoedd tarian; magma a lafa'n ymsolido. Roedd llawer yn disgrifio'r dilyniant o ddigwyddiadau ond roedd yr elfen 'esbonio' yn aml yn dangos diffyg manylder, gan roi atebion cyffredinol ac arwynebol ar adegau. Yn anffodus, nid oedd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol gan nifer o'r ymgeiswyr, ac roedd y rhain yn trafod cydgyfeiriant neu fannau poeth. Roedd diagramau i'w gweld, a rhoddodd rhai ymgeiswyr anodiadau manwl, ond roedd llawer yn rhoi diagramau rhy syml heb ychwanegu rhyw lawer at yr esboniad yn y testun.
- Cw.6 (a)**
- (i) Bron i gyd yn gywir; y prif gamgymeriad oedd diffyg arwydd negatif.
  - (ii) Roedd y rhan fwyaf yn gywir. Y camgymeriadau nodweddiadol oedd peidio â chynnwys arwydd negatif, hepgor un rhif o'r rhestr yn y cyfrifiad neu gamgymeriad trawsgrifio.

- (iii)** Roedd nifer da o atebion da i'r cwestiwn hwn, a defnyddiwyd yr adnoddau'n glir. Roedd yr atebion gorau'n nodi pa gwmnïau awyrennau fyddai'n teimlo'r effaith fwyaf a lleiaf, er bod rhai wedi ceisio esbonio hyn yn nhermau maint y cwmni awyrennau/llwybrau. Nodwyd y cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr ac roedd nifer sylweddol o atebion wedi meintioli hyn ond un camgymeriad cyffredin oedd peidio â gwahaniaethu'n glir rhwng niferoedd yr ymwelwyr cyn ac ar ôl yr echdoriad: nid oedd cyfrifo'r newid yn niferoedd yr ymwelwyr rhwng 1950 a 2015 yn ateb y cwestiwn. Roedd yr effaith economaidd dymor canolig a hirach ar dwristiaeth (lluosydd) wedi'i nodi'n dda. Roedd atebion llai llwyddiannus yn aml yn dyfynnu data yn unig, yn hytrach na'u defnyddio i ddangos amrywiadau a chymariaethau. Roedd ymgeiswyr gwannach yn drifftio i mewn i drafodaeth am gostau ailadeiladu neu ddifrod i awyrennau heb fod dim tystiolaeth yn yr adnoddau i ategu'r gosodiadau hyn.
- (b)** Gwnaethpwyd hyn yn dda ar y cyfan gan y rheini a ystyriodd yn briodol y galw am ddisgrifiad o batrwm ac a ddadansoddodd yr adnodd gyda hyn mewn golwg. Roedd atebion da fel arfer yn nodi'r gostyngiad oddi wrth yr agorfa ac yn nodi cyfeiriadaeth gorllewin – dwyrain patrwm yr alldafliaid. Yn yr atebion hyn, defnyddiwyd data yn gywir gan fwyaf. Roedd nifer sylweddol yn sôn am y newid i gyfradd dyddodiad gyda phellter oddi wrth yr agorfa (er nad oeddent yn mynegi hyn yn dda) ac roedd llawer yn nodi siâp hirgrwn yr alldafliaid. Roedd yr atebion gwannach yn rhoi disgrifiad syml o'r hyn yr oeddent yn ei weld yn hytrach na dadansoddi patrymau â gosodiadau cymharu. Roedd rhai ymgeiswyr yn ailadrodd gwybodaeth, mewn ffordd ychydig yn wahanol, ond nid oedd marciau ychwanegol am hyn. Roedd rhai'n awgrymu nad oedd y lludw'n disgyn y tu hwnt i'r ynys a'i fod yn gorffen wrth gyrraedd y môr. Byddai'r ymgeiswyr yn elwa o ddarllen y cwestiwn yn ofalus er mwyn gallu strwythuro eu hatebion i fodloni ei ofynion.
- (c)** Roedd dealltwriaeth dda ar y cyfan o effeithiau cysylltiedig â phellter. Defnyddiodd llawer Ffigur 5c fel sail i'w hateb. Roedd yr atebion gwell a roddodd sylw i losgfynyddoedd yn gwahaniaethu'n glir rhwng effaith gwahanol fathau o berygl, yn hytrach na'u trin mewn termau generig. Roedd nifer sylweddol yn cyfeirio at amllder digwyddiad yn eu hasesiad. Ychydig a nododd y byddai effaith cyfeiriad y gwynt yn amrywio. Roedd llawer o'r atebion yn ateb y cwestiwn gan ddefnyddio ymagwedd fwy cyffredinol. Pan roddwyd sylw i ddaeargrynfeydd, roeddent yn aml yn cyfeirio at eu maint, ond ni chafodd hyn ei ymestyn i gynnwys llosgfynyddoedd. Roedd nifer sylweddol yn archwilio dylanwad lefelau datblygiad ar effeithiau peryglon tectonig. Roedd yr atebion hyn yn canolbwyntio ar ansawdd tai, parodrwydd cymunedau a seilwaith fel rheoleiddwyr pwysig i faint yr effaith. Nododd llawer yr effaith ar aneddiadau yn unig, ond roedd yr atebion gorau'n trafod maint yr anheddiad neu ddwysedd y boblogaeth. Roedd yn braf gweld deunyddiau astudiaeth achos yn cael eu defnyddio i ategu asesiadau ymgeiswyr. Roedd atebion llai effeithiol yn dibynnu ar ddisgrifio effeithiau yn hytrach na rhoi sylw i'r angen i asesu.



- Cw.7 (a)** Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ymdopi'n dda â'r cwestiwn hwn. Eto, roedd llawer o'r atebion gorau'n seiliedig ar astudiaethau achos a ddefnyddiwyd mewn modd perthnasol. Roedd llawer o atebion yn cynnwys trafodaeth lwyddiannus am golli tai, a'r ymgeiswyr yn sôn am amddifadedd mewn gwersylloedd ffoaduriaid a'r goblygiadau tymor hir, megis tarfu ar addysg a manau gwaith. Dim ond yr ymgeiswyr mwyaf galluog a oedd yn rhoi sylw i effeithiau seicolegol, newyn a'r materion ymarferol sy'n gysylltiedig â dod o hyd i gartref. Roedd rhai'n datblygu'r syniadau o ddirgartrefedd, cymorth a llygredd yn effeithio ar bobl. Fodd bynnag, ni thrafodwyd colli tai mewn termau cymdeithasol bob amser, gan fod yr ateb yn edrych ar gost ailadeiladu. Roedd nifer o atebion yn rhoi sylw i farwoldeb fel effaith gymdeithasol drwy archwilio effaith marwolaethau yn y teulu ar oroeswyr neu berthnasau. Roedd effeithiau cymdeithasol colli seilwaith yn ffocws poblogaidd arall, nid dim ond o ran cyfathrebu ond hefyd fel effeithiau ar y cyfleusterau a'r systemau sylfaenol sy'n gwasanaethu gwlad neu ddinas fel cyflenwadau dŵr a system garthffosiaeth. Gan fod Haiti wedi'i nodi'n aml fel y digwyddiad a enwyd, roedd methiant cyfraith a threfn yn cael sylw'n aml. Roedd llinell fain yn y drafodaeth rhwng effeithiau cymdeithasol ac economaidd, a drifftiodd cryn dipyn tuag at drafod costau, e.e. dim arian oherwydd diweithdra yn hytrach na sut mae'r diffyg arian yn effeithio ar bobl. Roedd atebion llai llwyddiannus yn dangos diffyg ffocws ar y cwestiwn ac yn ysgrifennu am effeithiau daeargryn yn unig, gan adael i'r arholwr chwilio am effeithiau cymdeithasol. Roedd yr ymagwedd hon yn cynhyrchu sylw arwynebol ar y gorau i lawer o'r effeithiau cymdeithasol ac, mewn rhai achosion, ffocws ar effeithiau demograffig ac economaidd, felly roeddent yn methu â chael y marciau. Cynigiodd rhai ymgeiswyr echdoriad folcanig fel digwyddiad, sy'n pwysleisio'r angen i ddarllen y cwestiwn yn ofalus cyn ei ateb.
- (b)** Roedd yr atebion nodweddiadol a gafodd sgorau da yn dewis chwilio ac achub, darparu bwyd a dŵr / tai / cyflenwadau meddygol a gwagio'r ardal. Soniodd llawer am gyrrff anllywodraethol ac elusennau. Datblygwyd yr atebion hyn yn dda, ac roedd yr ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl am yr ateb a ddewiswyd. Wrth asesu'r llwyddiant, ystyriodd cryn dipyn amrywiadau rhwng datblygiad gwledydd (gan sôn am Nepal a Japan yn aml); roedd sôn yn aml hefyd am hygyrchedd ardal yr effeithiwyd arni. Yn wir, mae'n debyg bod AA2 yn uwch ar y cyfan ar gyfer y cwestiwn hwn gan fod yr ymgeiswyr yn ei gweld yn haws asesu llwyddiant rhywbeth sydd wedi digwydd. Rhoddwyd marciau am systemau rhybudd cynnar os oeddent yn gysylltiedig â'r llwyddiant o ran caniatáu i bobl weithredu i osgoi'r digwyddiad. Archwiliodd llawer o atebion sut mae rhybuddion testun ynghylch tswnamïau'n gallu rhoi amser i adael yr ardal. Yn anffodus, dewisodd llawer o ymgeiswyr ysgrifennu am gynllunio a pharatoi am ddigwyddiadau daeargryn (adeiladau, ymarferion gadael yr adeilad). Roedd cryn dipyn wedi dewis ymatebion tymor hir, megis rhaglenni adeiladu, neu wedi astudio llosgfynyddoedd – eto yn camddarllen y cwestiwn.

### **Arweiniad pellach ynglŷn â defnyddio dalenni parhau a llyfrynau ychwanegol**

Gan fod yr uned hon yn cael ei hasesu'n electronig, mae'n hanfodol bod ymgeisydd sy'n cwblhau ateb ar y dalenni parhau yn ysgrifennu'n glir 'yn parhau ar dudalen x'. Os yw'r ymgeisydd yn parhau â'r ateb ac yn ei gwblhau, rhaid iddo hefyd nodi'r rhif cwestiwn cywir.

# TAG UG A SAFON UWCH DAEARYDDIAETH

## Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2018

### Uwch Gyfrannol/Uwch

#### UNED 2: LLEOEDD NEWIDIOL

*Uwch Arholwr: Iwan Rowlands*

#### Adran A

- Cw.1 (a) (i)** Atebwyd yn dda ar y cyfan. Enillodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr o leiaf 4 marc drwy adnabod lleoliadau o'r adnodd ac ymhelaethu ar sut gallai'r rhain symbylu adfywio. Os na chafodd ymgeiswyr farciau uchel, roedd hyn oherwydd nad oeddent yn defnyddio digon ar yr adnodd yn y cwestiwn hwn sy'n seiliedig ar sgiliau.
- (ii)** Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i adnabod newid ymddygiad. Roedd yr ymgeiswyr gorau yna'n datblygu'r ateb hwn i ennill mwy o farciau. Fodd bynnag, ni lwyddodd llawer o ymgeiswyr i ennill y marciau datblygu am nad oeddent yn ddigon penodol. Rheswm arall posibl pam na chafodd ymgeiswyr fwy o farciau oedd y ffaith eu bod wedi nodi mwy nag un newid ymddygiad e.e. cadarnhaol a negyddol. Ni roddodd rhai ymgeiswyr ffocws digon manwl ar y newid YMDDYGIAD.
- (b)** Roedd ansawdd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio'n fawr. Roedd rhai'n methu ag adnabod unrhyw heriau yn hytrach na goblygiadau, a chynigiodd llawer archwiliad cyfyngedig o'r heriau a nodwyd gan arwain at sgorau gwan ar farciau AA2. Roedd yr ymgeiswyr cryfaf yn gallu datblygu archwiliad o ddwy neu fwy o heriau drwy gyfeirio at enghreifftiau manwl a phriodol. Gwelwyd amrywiaeth eang o enghreifftiau, a Chaerdydd, Lerpwl, cymoedd De Cymru a Llundain oedd y mwyaf cyffredin. Roedd rhai ymgeiswyr yn cynnig atebion llawn iawn, gan gyfeirio at bob un o'r tri math o sefyllfa – os yw adfywio'n absennol, wedi methu neu'n achosi gorboethi – ond nid oedd hyn yn hanfodol i gael marciau llawn. Yn wir, nid oedd y rhai a wnaeth bob un o'r tri'n tueddu i gael y marciau uwch gan fod eu hatebion yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol.
- Cw.2 (a) (i)** Yn gyffredinol roedd hwn wedi ei ateb yn dda, a chafodd y rhan fwyaf 2 neu 3 marc. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ganfod manau â chrynodiad uchel neu isel. Collwyd rhai marciau oherwydd gwybodaeth leoli wael e.e. drysu rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin. Mae'n werth nodi hefyd nad oedd lwerddon ar y map, a bod Gogledd Iwerddon!
- (ii)** Enillodd llawer o'r ymgeiswyr y 2 farc llawn, naill ai drwy wneud dau awgrym priodol, neu drwy ddatblygu un awgrym. Fodd bynnag, mewn rhai achosion nid oedd y datblygiad yn awgrymu'n amlwg sut y byddai'n gwella'r map. Roedd yr atebion gwannaf yn tueddu i awgrymu dulliau eraill o gyflwyno data yn hytrach na gwelliannau y gellid eu gwneud i'r map coropleth penodol hwn.

- (iii) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu awgrymu ffactor briodol, ond roedd rhai awgrymiadau e.e. seilwaith yn eithaf amwys, a nifer cymharol fach a allodd ddatblygu eu hawgrym yn ddigonol i ennill marciau llawn. Roedd llawer yn drifftio i mewn i ailadrodd elfen ddisgrifiadol a (i) yma. Roedd rhai o'r atebion gorau'n canolbwyntio, er enghraifft, ar brifysgolion ac yn cyfeirio at gyflenwi graddedigion medrus iawn a'r cysylltiadau rhwng ymchwil prifysgol a busnesau newydd.
- (b) Ychydig o'r ymgeiswyr oedd yn deall cysyniad ailfrandio gwledig. Nid oedd llawer o ymgeiswyr hyd yn oed yn gallu enwi ardal wledig. O'r ymgeiswyr a lwyddodd i leoli ardal wledig, roedd eu hatebion yn tueddu i roi ffocws cul ar fentrau gwledig unigol, e.e. Folly Farm, Project Eden, a Gŵyl Glastonbury. Roedd y rhain yn aml yn gyfyngedig o ran manylder ac archwilio goblygiadau. Roedd yr atebion gorau wedi'u lleoli yn Eryri ac Ardal y Llynnoedd ac yn canolbwyntio ar dwristiaeth antur, ond roedd hyd yn oed yr atebion hyn yn tueddu i fod yn rhy gyffredinol a chyfeirio'n rhy syml at effeithiau heb eu harchwilio rhyw lawer.

## Adran B

- Cw.3 (a)**
- (i) Roedd angen nodi'r ateb cywir yn glir mewn miloedd i ennill marc. Roedd yn siom mai dim ond lleiafrif o'r ymgeiswyr a lwyddodd i wneud hyn.
  - (ii) Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ennill marciau yma, er nad oedd yr ymgeiswyr gwannaf wedi nodi'r duedd gyffredinol yn glir. Roedd rhai ymgeiswyr wedi nodi'n syml beth oedd yn digwydd ym mhob colofn. Roedd yr atebion gorau wedi'u strwythuro a'u hysgrifennu'n glir, yn hytrach na bod yn gyfres o ystadegau. Roedd yr ymgeiswyr cryfaf yn sylwi ar yr anwadaliad yn ogystal â'r cynnydd cyffredinol mewn mewnfudo ac allfudo.
  - (iii) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn enwi techneg addas – graff llinell neu graff bar fel arfer. Cafodd llawer llai y 3 marc llawn am gyfiawnhau eu dewis: roedd llawer o'r atebion yn dibynnu ar ddisgrifio'r dechneg, heb roi digon o bwyslais ar pam roedd hi'n addas. Roedd y gair 'hawdd' yn cael ei ddefnyddio'n aml. Roedd angen sylwadau cyfiawnhau cryfach i gael marciau llawn. Mae'n werth cofio mai un ffordd o gyfiawnhau dull yw dweud pam mae'n well na dulliau eraill.
  - (iv) Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gyrraedd Band 2 o leiaf ar gyfer AA3 drwy amlinellu rhai o gryfderau a/neu wendidau'r data, a chafodd nifer da ohonynt 3 neu 4 marc allan o 4. Fodd bynnag, roedd asesu'r cryfderau a'r gwendidau (AA2) yn aml yn gymharol wan. Ar y cyfan, roedd yr atebion a gafodd y sgorau isaf yn tueddu i fod yn eithaf generig (gan drafod, er enghraifft, manteision ac anfanteision data eilaidd yn gyffredinol) yn hytrach na ffocysu ar y data eilaidd a roddwyd. Roedd atebion gwan eraill yn drifftio i sôn am ba wybodaeth nad oedd wedi'i chynnwys yn y tabl yn hytrach na chanolbwyntio ar y data eu hunain.
- Cw.4** Cynhyrchodd hwn amrywiaeth eang o atebion o ran pwnc ac ansawdd ond ar y cyfan, atebwyd y cwestiynau gwaith maes yn fwy hyderus nag yn 2017. Roedd rhai o'r teitlau ymchwiliadau a ddarparwyd yn dal i fod yn amwys; y disgwyl yw y dylai'r holl ymgeiswyr allu mynegi teitl yr ymchwiliadau a gynhaliwyd yn y maes. Roedd nifer bach iawn o sgriptiau'n dal i ddrysu rhwng ymchwiliadau daearyddiaeth ffisegol a dynol.

Roedd y sgrïptiau gwannaf yn tueddu i restru'r dulliau cyflwyno data heb esbonio beth oedd eu diben. Yn gyffredinol, nid oedd atebion o'r natur hon yn cynnwys llawer o gyfiawnhau. Gwendid arall a welwyd oedd drifftio tuag at werthuso. I gael marciau uchaf AA2, mae angen dealltwriaeth o ofynion geiriau gorchmynnol. Treuliodd llawer o ymgeiswyr amser diangen yn disgrifio'n fanwl eu dulliau casglu data gwaith maes cyn mynd ymlaen i drafod cyflwyniad y data. Fodd bynnag, roedd yn galonogol gweld atebion rhagorol o amrywiaeth eang o ganolfannau, a dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr dystiolaeth glir o ymwneud â phenderfyniadau cyflwyno data.

Roedd yr atebion gorau'n tueddu i ganolbwyntio ar amrywiaeth lai o ddulliau cyflwyno – efallai 2 neu 3. Roedd hyn yn eu galluogi i ganolbwyntio ar y cyfiawnhad. Roedd llawer o'r atebion yn llawer hirach na'r 18 llinell a roddwyd ac nid oeddent wedi ffocysu'n ddigonol ar y cyfiawnhad.

Gwaith maes arfordirol oedd y dewis mwyaf poblogaidd o bell yma, a gwelwyd llawer o atebion da. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, defnyddiodd yr ymgeiswyr ddulliau a oedd yn anaddas i'r data yr oeddent yn ceisio eu dangos. O'r cwestiynau tariff uwch ar y papur, hwn yw'r cwestiwn a gynhyrchodd yr atebion mwyaf safonol.

**Cw.5** Eto, roedd ansawdd a thestun yr atebion yn amrywio'n eang. Fel yng Nghwestiwn 4, methodd rhai â nodi teitl priodol, ac roedd nifer bach yn drysu rhwng eu hymchwiliadau daearyddiaeth ffisegol a dynol. Roedd rhai o'r atebion gwannaf yn gweld cynllunio bron yn llwyr yn nhermau ystyriaethau sylfaenol megis trefnu cludiant i gyrchfannau gwaith maes. Roedd yn ymddangos bod llawer o'r ymgeiswyr yn dangos diffyg ymwybyddiaeth o agweddau sylfaenol ar gynllunio megis cynnal asesiad risg, astudiaethau peilot, gweithdrefnau samplu ac ati. Mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu'r tebygolrwydd mai athrawon sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith cynllunio, yn hytrach na'r ymgeiswyr eu hunain.

Serch hynny, cafwyd rhai atebion rhagorol ac mae'n amlwg bod rhai canolfannau wedi paratoi eu disgyblion yn effeithiol iawn ar gyfer hanfodion cynllunio eu hymchwiliadau. Mae'n galonogol gweld bod gwaith maes yn cael ei wneud mewn amrywiaeth eang o leoliadau, yn aml gryn bellter oddi wrth ganolfannau'r ymgeiswyr eu hunain.

Gwendid arall oedd bod llawer o atebion yn edrych ar effeithiolrwydd eu dulliau casglu data. Er bod gorgyffwrdd clir rhwng y ddau gam, roedd yr ymgeiswyr gorau'n llwyddo i wneud y gwahaniaeth hwn yn glir. Un sylw arall am asesu risg yw bod angen iddo fod yn realistig. O rai atebion, byddech chi'n cael y teimlad bod cerdded o gwmpas tref mewn grwpiau'n weithgaredd a allai beri risg uchell!!

Yn gyffredinol, roedd y cwestiwn hwn yn dangos tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth dda, er bod angen ychydig mwy o soffistigeiddrwydd yn nealltwriaeth y disgyblion o'r gwaith maes y maent yn ei wneud.

### **Arweiniad pellach ynglŷn â defnyddio dalenni parhau a llyfrynnau ychwanegol**

Gan fod yr uned hon yn cael ei hasesu'n electronig, mae'n hanfodol bod ymgeisydd sy'n cwblhau ateb ar y dalenni parhau yn ysgrifennu'n glir 'yn parhau ar dudalen x'. Os yw'r ymgeisydd yn parhau â'r ateb ac yn ei gwblhau, rhaid iddo hefyd nodi'r rhif cwestiwn cywir.

## TAG UG A SAFON UWCH DAEARYDDIAETH

### Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2018

### Uwch Gyfrannol/Uwch

## UNED 3: SYSTEMAU BYD-EANG A RHEOLAETH FYD-EANG

### Arsylwadau Cyffredinol

Roedd y papur hwn yn hygyrch i ddisgyblion o bob gallu, ac nid oedd llawer o dystiolaeth o hepgor cwestiynau; fodd bynnag, roedd rhai o'r cwestiynau hirach yn her i lawer o'r ymgeiswyr. Roedd y papur yn gwahaniaethu'n dda, ac roedd pob cwestiwn a rhan o gwestiwn yn rhoi'r nodwedd ofynnol o roi cyfle i'r disgyblion mwyaf galluog i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o'r fanyleb, gan fod yn hygyrch hefyd i ddisgyblion llai galluog.

- Nid oedd yn ymddangos bod rheoli amser yn broblem i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr, a chynhyrnodd rhai ohonynt atebion hir a manwl i bob cwestiwn; yr unig le y cafwyd problem ag amseru oedd Cwestiynau 7/8 neu 9/10, ac roedd hyn yn bennaf oherwydd bod yr ymgeiswyr wedi ysgrifennu gormod wrth ateb y cwestiynau ateb byr. Roedd rhai canolfannau wedi annog eu disgyblion i ateb y cwestiynau hirach hyn yn gyntaf; mae hyn yn rhywbeth y gallai ymgeiswyr ei ystyried mewn arholiadau yn y dyfodol.
- Mae gan nifer sylweddol o ymgeiswyr broblem â llawysgrifen wael o hyd. Mae'n hawdd colli cyfeiriad dadl neu ddisgrifiad os oes rhaid canolbwyntio ar ddehongli'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu. Anogir canolfannau i annog disgyblion â llawysgrifen wael i archwilio cyfleoedd i ddefnyddio prosesydd geiriau neu ysgrifennydd. Mae sillafu, atalnodi a gramadeg yn dal i fod yn broblem i nifer o ymgeiswyr.
- Mewn rhai achosion, roedd y data / tystiolaeth ategol yn atebion yr ymgeiswyr yn 'greadigol' neu o leiaf yn ddryslyd: dylai canolfannau atgoffa eu disgyblion (i) bod arholwyr yn gyfarwydd â'r astudiaethau achos 'safonol'; (ii) ei bod yn hawdd i arholwyr wirio astudiaethau achos ar y rhyngwyd.
- Mae angen i ymgeiswyr dalu sylw i'r dyraniad marciau, oherwydd yn rhy aml roedd rhai ymgeiswyr wedi ysgrifennu mwy ar gyfer cwestiynau 5 a 6 nag ar gyfer y cwestiynau traethawd hirach.
- Mewn rhai achosion, mae angen atgoffa ymgeiswyr o hyd i ymateb yn uniongyrchol i air gorchymyn y cwestiynau, ond mae'r cohort hwn wedi gwella'n sylweddol o gymharu ag UG y llynedd. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymgeiswyr yn ofalus i ddarllen geiriad y cwestiynau, gan arwain at atebion amherthnasol.
- Roedd Cwestiynau 4, 7 a 9 yn fwy poblogaidd o lawer na Chwestiynau 3, 8 a 10 yn ôl eu trefn. O ran cydraddoldeb, roedd Cwestiynau 3 a 7 a Chwestiynau 4 ac 8 yr un mor hygyrch yn ôl eu trefn. Fodd bynnag, cafwyd gwell atebion ar y cyfan i Gwestiwn 8 nag i Gwestiwn 7, gan fod yr ymgeiswyr yn gallu defnyddio astudiaethau achos da fel craidd eu hateb. Roedd Cwestiwn 9 yn fwy hygyrch i'r holl ymgeiswyr na Chwestiwn 10, a chafodd yr ymgeiswyr fwy o farciau am Gwestiwn 9.

- Nid oedd astudiaethau achos bob amser wedi'u datblygu'n dda yn y cwestiynau hirach, ac eithrio Cwestiwn 8. Dylid annog disgyblion i ddysgu mwy o fanylion am nifer llai o astudiaethau achos ('cryfder mewn dyfnder') oherwydd dim ond enwau lleoedd oedd llawer ohonynt.
- Roedd yn galonogol gweld bod lleiafrif bach iawn o ymgeiswyr wedi cynnwys cynllun cryno ar gyfer y cwestiynau hirach.
- Er y bu ymdrech amlwg i asesu – roedd yn tueddu i ddangos diffyg dyfnder ac roedd weithiau'n unochrog, gyda chydabyddiaeth gyfyngedig i wahaniaethau tymhorol neu ofodol sy'n ddau gysyniad arbenigol cynhenid ar lefel Safon Uwch.

## Adran A

**Cw.1 (a)** Atebwyd yn dda iawn – cafodd bron bawb 3 marc, yn nodweddiadol am frig uwch, data ategol ac yna Newaukum yn para'n hirach neu Mercer yn fwy llachar neu'r ddau'n cyrraedd brig ar yr un diwrnod. Anaml y gwelwyd pwyntiau eraill ar y cynllun marcio. Fodd bynnag, roedd rhai disgyblion yn canolbwyntio gormod ar ddisgrifio newidiadau data yn y ddwy afon ac felly'n hepgor yr elfen gymharu allweddol. Roedd yn siom gweld mai dim ond rhai ymgeiswyr a oedd yn gallu defnyddio terminoleg megis 'llachar' neu fraich esgynnol fwy serth. Roedd llawer wedi ysgrifennu mwy na'r angen i gael y marciau, gan gynnwys deunydd amherthnasol am y lefelau cychwynnol a therfynol, h.y. ddim yn ymwneud â'r arllwysiad brig, sy'n golygu nad oeddent wedi darllen y cwestiwn yn ofalus.

**(b)** Cafodd y rhan fwyaf o leiaf 3 marc, cafodd llawer 4 marc a rhoddodd cryn dipyn sylwadau pellach a oedd yn haeddu marciau. Y newid i ddefnydd tir a ddewiswyd amlaf oedd datgoedwigo, ac yna trefoli. Fodd bynnag, methodd cryn dipyn â chael y marc am nodi ffordd o ddefnyddio tir gan eu bod wedi defnyddio termau megis 'adeiladu tai/adeiladu ffyrdd' neu 'amaethyddiaeth' heb bennu dwysáu.

Roedd llawer o'r ymgeiswyr wedi gweithio eu ffordd yn rhesymegol drwy'r prosesau sy'n gysylltiedig â mwy o anhydreiddedd, colli storfa dŵr/llif ar hyd coesynnau, llai o ymdreiddiad, mwy o ddŵr ffo arwyneb (defnyddiodd llai'r term llif trostir). Roedd yr ymgeiswyr mwyaf galluog hefyd yn sôn am ormodedd dirlawnder a/neu ormodedd ymdreiddiad. Roedd yr ymgeiswyr llai galluog yn rhoi disgrifiadau hir o newidiadau cyn defnyddio tir – eto'n dangos nad oeddent wedi darllen y cwestiwn yn ofalus.

**Cw.2 (a)** Roedd atebion y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cyrraedd Band 2, a chryn dipyn yn cyrraedd Band 3, ond nifer cymharol fach a gafodd farciau llawn. Mewn rhai Canolfannau, roedd y disgyblion wedi deall y cysyniad ac yn amlwg yn gyfarwydd â'r syniad bod prosesau'n digwydd yn ddilyniannol. Roedd yr elfennau a gyflwynwyd amlaf yn ymwneud â dwrlenwi, amodau anaerobig, dadelfeniad rhannol defnydd planhigol a mawn yn cronni. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf galluog yn fwy manwl, e.e. 'ers yr Oes Iâ ddiwethaf' yn hytrach nag 'amser maith' neu hyd yn oed 'cannoedd o flynyddoedd', sôn am ffactorau megis asidedd a dilyn dilyniant cywir y broses yn glir. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf galluog yn sôn am fwsogl migwyn yn hytrach na 'planhigion/rhedyn'. Nifer cymharol fach o ymgeiswyr a soniodd am storfa garbon a llystyfiant penodol neu wybodaeth am y lleoliad, gan eu hatal rhag cyrraedd rhan uchaf Band 3. Nid oedd newid i amodau hinsawdd, gan gynnwys mwy o lawiad, bron byth i'w weld yn atebion yr ymgeiswyr. Roedd ychydig ohonynt yn gyfarwydd â'r gwahanol fathau o fawnog, ond nid oedd hyn yn aml yn ychwanegu rhyw lawer at y drafodaeth am y broses. Roedd yr ymgeiswyr gwannaf yn sôn am 'dadelfennu' yn hytrach na 'dadelfennu rhannol', ac roedd rhai'n dweud bod y pridd yn dadelfennu ac yn disgrifio lliw a gwead mawn yn hytrach na sut mae'n ffurfio.

- (b) Cafodd y rhan fwyf o'r ymgeiswyr 1 marc o leiaf, ond nifer cymharol fach a gyrhaeddodd Fand 3. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn trafod echdynnu a draenio; roedd yr ymgeiswyr gwannaf yn meddwl bod y prosesau hyn yn golygu'r un peth. Yn aml, nid oedd atebion yr ymgeiswyr yn rhoi sylw i'r elfen 'sut', a gwnaethpwyd gosodiadau syml am y storfa garbon yn lleihau a defnyddio mawn fel tanwydd/compost, heb wneud y cysylltiad gofynnol rhwng y ddau. Roedd cryn dipyn o ailadrodd wrth i'r ymgeiswyr ymdrechu i ddweud rhywbeth gwahanol am ddraenio ac echdynnu mawn, e.e. y frawddeg 'mwy o CO<sub>2</sub> yn yr atmosffer a llai o garbon wedi'i storio mewn mawn' ar gyfer y ddwy sefyllfa, gan hepgor 'sut' unwaith eto.

Roedd yr ymgeiswyr mwyaf galluog yn canolbwyntio ar ddraenio, gan weithio eu ffordd drwy'r syniad o sychu, amodau aerobig, ocsidiad, erydiad, ac yn defnyddio termau mwy soffistigedig megis 'newid o suddfan i ffynhonnell carbon'. Roedd echdynnu'n canolbwyntio ar losgi CO<sub>2</sub> ac yna ei ryddhau.

Roedd yr ymgeiswyr lleiaf galluog yn drifftio tuag at gynhesu byd-eang, newid mewn glawiad, amaethu a llygredd. Roedd rhai hefyd yn sôn am ardaloedd ledled y byd – eto ddim yn darllen y cwestiwn, sy'n eu cyfeirio at Ffigur 2.

- Cw.3** Ni roddodd llawer o fyfyrwyr gynnig ar y cwestiwn hwn; roedd y rhai a roddodd gynnig arno'n tueddu i ganolbwyntio ar astudiaethau achos gan wneud llawer o ddisgrifio ond dim llawer o asesu. Y dyb yw bod yr ymgeiswyr a gafodd farciau uchel am y cwestiwn hwn wedi cael eu cynnwys AA1 o'r opsiwn U4 Tywydd a Hinsawdd.

AA1: roedd y rhan fwyaf yn cyrraedd Band 2, a rhai'n cyrraedd Band 3. Roedd cryn dipyn yn sôn am newidiadau tymhorol, gan gynnwys newidiadau i storfeydd iâ yn ogystal â glawiad – ond anghofiodd rhai ychwanegu a oedd diffyg; ychydig a edrychodd ar y newidiadau tymhorol i anwedd-drydarhiad. Anaml y gwelwyd archwiliadau da o gysyniad cydbwysedd màs – yn wir, ni wnaeth llawer enwi mewnbynau, allbynau na storfeydd. Ychydig a edrychodd ar newidiadau hinsawdd tymor hir, ac eithrio o ganlyniad i achosion anthropogenig (o dan AA2). Roedd sôn am amrywiad yn y Jetlif fel ffactor – ond eto heb ddigon o fanylder. Roedd y rhai a edrychodd ar El Niño fel rheol yn rhoi mwy o fanylder. Roedd yr astudiaeth achos sychder yn y DU yn un o'r mwyaf cyffredin, er bod y manylion yn fylchog. Roedd yr enghreifftiau mwy diweddar a ddefnyddiwyd gan ymgeiswyr yn cynnwys Basn Murray a California. Roedd rhai atebion da iawn heb asesiad o'r ffactorau hyn, ac felly'n colli marciau AA2.

Roedd cryn dipyn heb ffurfio cysylltiad clir rhwng sychder a diffyg dŵr. Roedd yr ymgeiswyr gwannach yn drifftio tuag at drafodaeth am oblygiadau diffygion dŵr. Roedd eraill yn sôn am ormodedd yn hytrach na diffyg wrth edrych ar newidiadau tymhorol ac El Niño.

AA2: roedd y rhan fwyaf yn cyrraedd Band 2, ond dim llawer yn cyrraedd Band 3. Anaml yr oedd hwn yn fwy llwyddiannus nag AA1, heblaw wrth ystyried achosion artiffisial. Roedd 'cymharol' fel arfer yn cael ei fynegi mewn termau syml e.e. 'ond' neu 'fodd bynnag' yn hytrach nag ystyried graddfa'r pwysigrwydd (gyda thystiolaeth ategol). Edrychodd rhai ymgeiswyr ar bwysigrwydd cymharol echdynnu dŵr (gan enwi Môr Aral fel arfer), a gan ddibynnu ar y Ganolfan, roedd sôn yn achlysurol am ddisbyddu dyfrhaenau.

- Cw.4** Mae'n debyg mai dyma'r cwestiwn a atebwyd orau yn y papur. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn amlwg yn deall beth sy'n achosi newidiadau yn y storfa garbon. Weithiau, roedd y pwyslais ar resymau dynol yn unig; fodd bynnag, roedd yr ymgeiswyr gorau'n trafod newidiadau a achoswyd gan bethau eraill megis Oesau Iâ ac echdoriadau folcanig. Weithiau, roedd yr elfen amser yn cael ei hawgrymu yn unig neu nodwyd 'yn ddiweddar'.

AA1: roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn cyrraedd Band 2, a rhai'n cyrraedd Band 3. Ar ôl ateb Cwestiwn 2, roedd cryn dipyn o'r ymgeiswyr yn gallu ailddefnyddio/datblygu'r syniadau hynny. Fel cwestiynau eraill, nid oedd rhai ymgeiswyr wedi ystyried y geiriad yn llawn; yn yr achos hwn, roedd 'amser' yn aml wedi'i hepgor neu wedi'i awgrymu yn unig. Roedd bron bob ymgeisydd wedi ystyried mwy nag un rheswm; roedd llawer yn edrych ar fwy o hylosgiad oherwydd diwydianeiddio, ac roedd gan rai ddata da a ffeithiau i'w hategu; roedd hyn yn aml yn cynnwys cynnydd poblogaeth, gweithgynhyrchu, mwy o gyfoeth yn achosi mwy o alw, datblygiad BRICS a NIC. Roedd datgoedwigo'n aml yn dilyn neu'n cael ei gyfuno â'r drafodaeth am ddiwydianeiddio – gan gyfeirio at Goedwig Law'r Amazon fel rheol (ond ag ychydig o ystadegau argyhoeddiadol). Er bod llawer wedi edrych ar gynhesu byd-eang hefyd, roedd dryswch weithiau am brosesau (e.e. a yw dŵr cynnes yn dal llai o garbon). Serch hynny, llwyddodd rhai i roi disgrifiad da o lifoedd rhwng y môr a'r atmosffer. Ychydig a drafododd newidiadau yn nhermau prosesau cyflym ac araf; yn yr un modd, newidiadau tymor hir oherwydd cylchredau naturiol cyfnodau (rhyng) rhewlifol. Roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr wedi ystyried coedwigo, ac roedd rhai hyd yn oed wedi cynnwys generadu pŵer gwyrdd; ond roedd yr ymgeiswyr gwannaf yn drysu rhwng carbon ac oson, sy'n peri pryder.

AA2: roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn cyrraedd Band 2, a rhai'n cyrraedd Band 3. Roedd bron bob ymgeisydd yn ystyried graddfa'r newid yn nhermau'r cynnydd mawr mewn carbon yn yr atmosffer. Roedd y rhai a oedd yn ystyried coedwigo ac egni gwyrdd yn goramcanu eu heffaith ar newid – 'lleihau'r swm'; dim ond ychydig a nododd eu bod yn fwy tebygol o 'leihau cyfradd y cynnydd'. Anaml y nodwyd pwysigrwydd cymharol newidiadau tymhorol.

## Adran B

**Cw.5 (a)** Cafodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr o leiaf 3 marc a chyrraeddodd llawer frig Band 2. Roedd bron bob un yn cyfeirio at o leiaf 2 wlad, sef Gwlad Pwyl a'r DU fel arfer. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gwahaniaethu rhwng y canfyddiad a'r realiti o ran effaith llafur mewnfudwyr yn y DU, gan nodi bod pobl yn meddwl bod mewnfudwyr yn 'dwyn eu swyddi'. Roedd dealltwriaeth dda o agweddau'r Pwyliaid, er eu bod wedi'u datgan yn eithaf lletchwith ar adegau. Fodd bynnag, roedd yr ymgeiswyr gwannaf yn nodi'n syml bod pobl o Wlad Pwyl eisiau mwy o fewnfudwyr i lenwi swyddi eu hallfudwyr. Roedd llawer yn methu â gwahaniaethu rhwng Sweden a Gwlad Pwyl; roedd llawer yn sôn am Sweden fel gwlad ag incwm is a diweithdra uwch na'r DU a bod llawer o allfudo am swyddi sy'n talu'n well! Ychydig a nododd fod pobl Sweden yn croesawu mudwyr i wneud swyddi nad oedd modd eu llenwi â dinasyddion Sweden. Roedd llawer hefyd yn cyfeirio'n anghywir at faich treth a straen ar system budd-daliadau'r DU oherwydd mudo. Nid oedd yn glir bob amser a oedd yr ymgeiswyr yn sôn am ffactorau economaidd yn hytrach na rhai cymdeithasol, e.e. cost neu fynediad (amseroedd aros) ar gyfer y GIG, tai ac addysg. Nid oedd rhai'n ei gwneud yn glir bod taliadau'n mynd yn ôl i Wlad Pwyl. Yn ôl y disgwyl, cyfeiriodd cryn dipyn at refferendwm yr UE, ond anaml y defnyddiwyd hwn mewn modd adeiladol i ateb y cwestiwn. Roedd yr ymgeiswyr lleiaf galluog yn drifftio tuag at sôn am effeithiau diwylliannol. Ysgrifennodd llawer o ymgeiswyr lawer gormod ar gyfer 5 marc.



- (b) Cafodd llawer o ymgeiswyr 4 marc, sef 2 + 2 fel rheol yn hytrach na 3 + 1. Ysgrifennodd cryn dipyn ddeunydd pellach a oedd yn haeddu marciau. Roedd bron bob un yn cyfeirio'n gywir at ffactorau gwleidyddol. Roedd yr ymgeiswyr llai galluog yn rhoi llawer o amrywiadau ar y thema 'drws agored' (yn aml gan sôn am yr Almaen yn y blynyddoedd diwethaf) neu reolaeth lym; roedd llawer o sôn am system bwyntiau Awstralia a'r rheolaeth lym iawn yng Ngogledd Korea. Cyfeiriodd llawer at y cynlluniau i adeiladu wal rhwng UDA a Mecsico ond ni ddatblygwyd hyn yn dda fel rhwystr ffisegol yn hytrach na rheolaeth ffin 'feddal'. Ychydig a soniodd am yr angen am lafur, gan arwain at wahoddiadau megis 'Windrush' – yn wir, roedd rhai'n meddwl mai ffoaduriaid oeddent. Defnyddiwyd rhyfel ac erlid yn aml, gan sôn am Syria yn benodol; soniwyd am gipio tir weithiau, ond heb enghreifftiau. Roedd ymgeiswyr yn ei chael yn anoddach esbonio pam na fyddai pobl eisïau mynd i mewn i wlad, e.e. senoffobia wedi'i arwain gan y llywodraeth, ansefydlogrwydd; yn lle hynny, roeddent yn dweud bod pobl yn dewis gwledydd yn seiliedig ar y system addysg a gofal iechyd. Roedd yr ymgeiswyr gwannaf yn drifftio i mewn i drafodaeth am oblygiadau mudo, ac eraill yn gwastraffu amser yn diffinio mudo neu'n dewis dau ffactor sy'n cyfeirio at yr un peth (e.e. polisïau yn erbyn mudo a pholisïau o blaid mudo).

- Cw.6 (a)** Cafodd bron bawb o leiaf 2 farc, cafodd llawer 3 marc a rhoddodd cryn dipyn bwyntiau pellach a oedd yn haeddu marciau. Roedd yr atebion gan fwyaf yn dechrau ag UDA yn dominyddu China yn 1970 a data ategol; roedd llawer yn mynd ymlaen i nodi'r lleihad a'r cynnydd yn ôl eu trefn, yn ogystal â'r newid i bwy oedd yn dominyddu erbyn 2008 (weithiau heb ei ddarllen yn gywir); soniodd llawer am y cyfnod pan oedd y niferoedd yn hafal, ond roedd rhai ymgeiswyr wedi camddarllen ffigur China ar gyfer 1970. Roedd yr ymgeiswyr gwannaf yn rhoi disgrifiadau llafurus o gynnydd a lleihad ar gyfer y ddwy wlad ar wahân, yn hytrach na chymharu'r cydbwysedd yn uniongyrchol. Roedd cymariaethau'n dda, ond heb ganolbwyntio bob amser ar China yn dominyddu erbyn 2010.
- (b) Cafodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr o leiaf 2 farc, a chafodd llawer o leiaf 4. Fodd bynnag, yn aml nid oedd yr atebion wedi'u trefnu'n ddealladwy iawn ac felly ni chafodd dealltwriaeth ei chyfleu. Roedd llawer yn cyfeirio at reolau UNCLOS, er bod cryn dipyn yn ansicr am y gwahaniaeth rhwng moroedd tiriogaethol a pharthau EEZ. Nododd y rhan fwyaf fod parthau EEZ yn gorgyffwrdd yn achosi tensiwn, a'r astudiaeth achos fwyaf cyffredin ar gyfer hyn oedd Môr De China, neu diriogaethau pell, fel y Falklands: heb lawer o ddatblygu ynglŷn â'r lleoliad hwn – y duedd oedd canolbwyntio ar y rhyfel ac nid ar y rhesymau dros y tensiwn. Roedd bron bob ateb yn sôn am werth adnoddau o dan y môr; roedd rhai'n edrych ar reoli llwybrau llongau. Roedd yr ymgeiswyr gwannaf yn drysu rhwng yr Arctig a'r Antartig, ac roedd rhai'n hepgor y gair 'ynysoedd' yn y cwestiwn ac yn trafod yr Arctig heb gysylltu ag ynysoedd o gwbl. Fel y cwestiynau ateb byr eraill, ysgrifennodd llawer o ymgeiswyr lawer gormod ar gyfer 5 marc.

**Cw.7** Cafwyd cymysgedd o atebion i'r cwestiwn hwn: Ar gyfer AA1, roedd y rhan fwyaf yn cyrraedd Band 2, ond dim llawer yn cyrraedd Band 3. Mae hyn yn enghraifft arall o gamddarllen y cwestiwn, ac roedd cryn dipyn yn drifftio i mewn i oblygiadau mudo. Hefyd, nid yw'n glir bob amser a yw'r ymgeisydd wir yn trafod mudo economaidd, e.e. buddion cymunedau diaspora i godi mudwyr newydd allan o dlodi (yn hytrach na dim ond ysgrifennu 'ymuno â pherthnasau'). Fel y disgwyliwyd, roedd cryn dipyn o'r ymgeiswyr yn seilio eu hatebion ar ffactorau gwthio a thynnu syml. Fodd bynnag, canfu'r rhan fwyaf rywbeth arall i'w drafod (e.e. mathau o dlodi) neu roedd ganddynt ddeunydd astudiaeth achos rhesymol, i'w codi i mewn i Fand 2. Roedd llawer yn nodi canolfannau byd-eang, ond heb lawer o ddatblygiad heblaw enwi un enghraifft. Dim ond yr ymgeiswyr mwyaf galluog a drafododd fynediad i farchnadoedd a / neu brisiau nwyddau cynradd; dyma gynnwys manyleb y mater hwn wedi'r cyfan: gwnaeth y rhan fwyaf gysylltiad da â'r effaith ar dlodi gan nodi gwahaniaethau rhwng gwledydd neu esbonio mai anaml y byddai un ffactor yn unig yn achosi'r symudiad. Nodwyd graddfeydd symudiad yn aml, e.e. gwledig – trefol, rhyngwladol, rhyng-gyfandirol. Yn aml, nodwyd symudiad menywod yn ne-ddwyrain Asia ar gyfer swyddi domestig a dynion ar gyfer gwaith adeiladu yn Qatar. Er y bu sôn am ffoaduriaid, ni chawsant eu cysylltu'n dda â'r agweddau economaidd ar symudiad. Nid oedd yr ymgeiswyr gwannaf yn gwahaniaethu rhwng tlodi absoliwt a chymharol. Hefyd, mae rhai'n nodi bod meddygon yn Nwyrain Ewrop yn byw mewn tlodi. Mae'n werth i Ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn gyfarwydd â geiriad y fanyleb wrth addysgu er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn gwybod pa ddarnau o wybodaeth i'w cynnwys yn eu hatebion, ac yn gallu osgoi llawer o'r atebion generig arddull ffactorau tynnu a gwthio.

Ar gyfer AA2, roedd y rhan fwyaf yn cyrraedd Band 2, a rhai'n cyrraedd Band 3. Roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi dehongli'r cwestiwn fel golygu 'pwysigrwydd tlodi' mewn perthynas â mudo economaidd ac aneconomaidd, yn hytrach na ffactorau heblaw tlodi sy'n effeithio ar fudo economaidd. Roedd pawb yn ystyried bod tlodi'n ffactor mawr. Roedd yr asesu'n aml yn nhermau 'fodd bynnag' ac 'ond' – gosodiadau cymharu syml. Roedd asesiadau cyfyngedig o ffactorau gwleidyddol; roedd yr ymgeiswyr yn teimlo bod newid technolegol a mynediad at wybodaeth yn hollbwysig o ran cyflymu mudo; nododd cryn dipyn o ymgeiswyr nad oes gan lawer o bobl mewn tlodi fodd o symud.

**Cw.8** Roedd hwn yn gwestiwn diddorol a syml, felly roedd yn siom mai nifer cymharol fach o ymgeiswyr a roddodd ateb. Ar gyfer AA1, roedd atebion y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cyrraedd Band 3. Roedd llawer yn defnyddio dull graddfeydd defnyddiol wrth ateb y cwestiwn, gan weithio o enghreifftiau lleol (astudiaeth achos Lamlash fel rheol) i enghreifftiau rhanbarthol (cwotâu pysgota / gwaharddiadau pysgota Gogledd yr Iwerydd a'r UE), i genedlaethol (Barriff Mawr) i ymdrechion rhyngwladol (UNCLOS, hela morfilod). Defnyddiwyd dull meddal cyhoeddusrwydd yn y cyfryngau hefyd yn aml, yn nodweddiadol mewn cysylltiad â phlastigion. Er bod llawer wedi nodi'r tâl 5c am fagiâu plastig yng Nghymru, ni chafodd hyn ei ddilyn yn dda yn nhermau sut mae bagiau plastig yn cyrraedd y cefnforoedd. Roedd sôn yn aml am adeiladu tanceri olew a gollyngiadau ohonynt. Anaml yr ystyriwyd effaith twf poblogaeth a rheoli'r cefnforoedd fel Eiddo Cyffredin Byd-eang. Yn anffodus, roedd rhai o'r ymgeiswyr wedi cyflwyno eu hateb yn nhermau beth gaiff ei wneud, felly roedd y dystiolaeth i'w asesu (AA2) ar goll.

Ar gyfer AA2, roedd bron bob ateb yn cyrraedd Band 2, a llawer yn cyrraedd Band 3. Bron bob amser, y peth a oedd yn atal ymgeiswyr rhag cyrraedd Band 3 oedd methu â sôn am gynaliadwyedd neu gyfeirio'n glir ato. Fel arall, aeth y rhan fwyaf o'r asesu y tu hwnt i osodiadau cymharu syml. Roeddent yn aml yn goramcanu llwyddiant y tâl 5c am fagiâu plastig, er bod rhai wedi nodi nad yw'r tâl hwn yn datrys y broblem bod plastig yn dal i fod yn y cefnforoedd. Yn yr un modd, ystyriwyd nad yw cyhoeddusrwydd, hyd yn oed gan Blue Planet, yn ddigon i newid ymddygiad, ac mai'r oll mae'n ei wneud yw codi ymwybyddiaeth o'r cefnforoedd, a allai fod yn gam cyntaf tuag at newid ymddygiad. Roedd amrywiaeth eang o farn am y Barriff Mawr, ond roedd y rhan fwyaf o'r datganiadau'n gredadwy. Yn aml, nodwyd natur leol rhai camau gweithredu, ynghyd â'r agweddau niweidiol ar ffermio pysgod.

## Adran C

**Cw.9** Dewisodd mwyafrif yr ymgeiswyr ateb y cwestiwn hwn yn hytrach na chwestiwn 10. Roedd rhai o'r myfyrwyr yn ei chael yn anodd gwneud pob un o'r 3 elfen ar y cwestiwn – gan dueddu naill ai i ganolbwyntio ar yr adnoddau neu i ddefnyddio eu gwybodaeth eu hunain ac felly fethu â defnyddio digon ar ddeunydd yr adnoddau.

AA1: roedd y rhan fwyaf yn cyrraedd Band 2, a chryn dipyn yn cyrraedd Band 3. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn defnyddio Ewrop fel y brif – neu hyd yn oed yr unig – ffynhonnell trafodaeth. Roedd cyfeiriadau at fudo Affricanaidd fel rheol yn nhermau gwledig – trefol. Wrth ystyried mudo o Affrica i Ewrop, nid oedd y rhan fwyaf yn nodi a fyddai hyn i ardaloedd trefol. Roedd y diffyg eglurder hwn yn bresennol mewn llawer o drafodaethau ynglŷn â symudiad o Ddwyrain Ewrop i Orllewin Ewrop – er bod llawer o sôn am symudiad i ardaloedd gwledig a threfol. Roedd rhai ymgeiswyr yn defnyddio gwybodaeth am China neu India (yn ôl pob tebyg o Uned 4) ar gyfer y cwestiwn hwn, a oedd yn galonogol o ran ymagwedd yr ymgeiswyr at synoptigedd. Fodd bynnag, fel gyda Chwestiwn 7, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn defnyddio trafodaeth gwthio a thynnu. Fodd bynnag, aeth llawer y tu hwnt i hyn drwy drafod materion ehangach fel gwrth-drefoli, telegyfathrebu modern a'r cyfryngau. Roedd llawer o drafodaeth yn canolbwyntio ar drefoli ardaloedd gwledig – yn anffodus, roedd yr astudiaethau achos yn wan (dim ond enw lle fel arfer). Nodwyd yn aml bod pobl hŷn yn enghreifftiau o symudiad trefol-gwledig (i gael bywyd tawel), a defnyddiodd yr ymgeiswyr gorau hyn i ddangos pam byddai mwy o ddiboblogi gwledig yn digwydd wrth i brisiau tai gynyddu. Er bod rhai wedi sôn am adfywio gwledig, ni ddatblygwyd hyn, a nododd rhai y byddai ardaloedd gwledig yn 'gwanhau'. Roedd rhai ymgeiswyr mwy galluog yn awgrymu y byddai ardaloedd gwledig a threfol yn cynyddu oherwydd y cynnydd poblogaeth cyffredinol. Wrth chwilio am synoptigedd, ni soniodd neb am weithgarwch tectonig. Gwnaethpwyd ymdrechion i ddefnyddio codiad yn lefel y môr, ond heb ganolbwyntio ar ardaloedd gwledig. Anaml y trafodwyd newid hinsawdd yng nghyd-destun AA1. Yn yr un modd, yr unig beth a roddwyd am newidiadau i lifoedd carbon oedd gosodiadau amhendiant am echdynnu mawn.

AA2: roedd llawer yn cyrraedd Band 3. Roedd llawer o'r ymgeiswyr heb gyfeirio at y dyfodol o gwbl, a phroblem gyffredin oedd bod llawer wedi disgrifio tueddiadau'r gorffennol/diweddar ac yna stopio'r drafodaeth. Fodd bynnag, roedd yr asesiadau o ble gallai pobl fyw yn y dyfodol yn aml yn dda iawn, a'r mwyafrif mawr yn rhagfynegi y byddai poblogaethau gwledig yn lleihau oherwydd mudo a/neu drefoli. Yn y cyfamser roedd safbwyntiau croes, ond derbyniol, am rôl telegyfathrebu a rhwydweithiau trafndiaeth o ran pennu poblogaethau gwledig y dyfodol.

AA3: roedd y rhan fwyaf o atebion yn cyrraedd Band 2, a llawer yn cyrraedd Band 3. Roedd rhai ymgeiswyr wedi anwybyddu'r adnoddau (gan gynnwys yr holl ymgeiswyr o un Ganolfan). Roedd yr atebion mwyaf soffistigedig yn gwneud cysylltiadau da rhwng Ffig 5 a Ffig 6, gan gynnwys defnydd da o 'ardaloedd gwledig â rhywfaint o ddatblygu trefol' fel dangosyddion o ehangu trefol yn y dyfodol, ynghyd â dangos ble mae mudo'n digwydd i mewn i ardaloedd trefol. Fodd bynnag, roedd llawer yn rhoi disgrifiad o Ffig 5 yn unig, heb gymhwyso'r cwestiwn. Nid oedd llawer o'r ymgeiswyr yn deall y rhifau negatif ar Ffig 6, heb sylwi mai mudo tuag allan yw'r rhain: arweiniodd hyn at gamgymeriadau wrth gymharu â Ffig 7. Hefyd, roedd diffyg dealltwriaeth o gyfradd i bob 1000: ychydig iawn a ddangosodd y byddai'r rhifau absoliwt yn llawer llai mewn ardaloedd gwledig. Roedd Ffig 7 yn achosi trafferth i'r ymgeiswyr. Dewisodd llawer beidio â'i ddefnyddio o gwbl, ac o'r rheini a wnaeth, dewisodd llawer ei ddisgrifio ond heb ei ddehongli yn nhermau'r cwestiwn. Roedd ymgeiswyr da'n gwneud y cysylltiad o fudo tuag allan o gefn gwlad Sbaen oherwydd llai o lawiad – ond ychydig a roddodd gyfiawnhad clir a fyddent yn mynd i ardaloedd trefol neu wledig o fewn Sbaen neu y tu allan. Roedd rhai'n nodi'n syml eu bod yn mynd i fannau fel y DU lle nad oes newid wedi'i ragweld, ac eraill yn meddwl y byddent yn mynd i ffermio yn Sweden neu'r Ffindir – yn achos y Ffindir, nid oeddent wedi ystyried Ffig 6. Yn y cyfamser, defnyddiwyd Ffig 8 yn bennaf fel man cychwyn i drafodaeth AA1.

**Cw.10** Rhoddodd llawer llai o'r ymgeiswyr gynnig ar y cwestiwn hwn; mae llawer o'r arsylwadau a nodwyd yng Nghwestiwn 9 yn berthnasol i'r cwestiwn hwn ac roedd diffyg asesu cyffredinol ynglŷn ag a ellid amddiffyn gwledig.

AA1: roedd cryn dipyn prin yn cyrraedd Band 2, a rhai'n cyrraedd Band 3. Roedd hwn yn gwestiwn heriol iawn – adlewyrchwyd hynny yn y marciau a roddwyd. Roedd llawer yn gwneud gosodiadau syml am fudo gwledig – trefol. Ychydig a oedd yn ymwybodol o fesurau i amddiffyn ardaloedd gwledig, hyd yn oed o fewn cyd-destun Parciau Cenedlaethol, nid oedd llawer o sôn am ardaloedd AHNE ac roedd yr astudiaethau achos yn gyfyngedig (enwau lleoedd fel rheol). Fel yn yr atebion i CW9, ychydig iawn o gyfeiriad a welwyd at newid hinsawdd a chylchredau carbon. Roedd yr atebion i gyd bron yn canolbwyntio ar y DU.

AA2: roedd cryn dipyn yn aros o fewn Band 1, ac ychydig iawn yn cyrraedd Band 3. I ddilyn AA1, roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau o fudo gwledig – trefol yn nodi'n syml ei fod yn anochel. Ar ôl cynhyrchu ychydig iawn o fanylion am amddiffyn ardaloedd gwledig, gwelwyd asesiadau cyfyngedig a syml.

AA3: roedd y rhan fwyaf yn cyrraedd Band 2, a rhai'n cyrraedd Band 3. Roedd rhai ymgeiswyr yn anwybyddu'r adnoddau'n llwyr. Roedd ymgeiswyr yn ei chael yn anoddach na'r rhai a atebodd Gwestiwn 9 i ddefnyddio'r adnoddau'n dda. Roedd yr ymgeiswyr fel rheol yn defnyddio Ffig 8 i ddangos amddiffyniad rhag newid, ac yn defnyddio Ffig 5 i ddangos bod colli ardaloedd gwledig yn anochel a bod llawer o Barciau Cenedlaethol eisoes wedi'u trefoli'n rhannol. Eto, roedd camddeall y gwerthoedd negatif yn Ffig 6 yn arwain at osodiadau anghywir, megis byddai pobl yn symud i gefn gwlad Sbaen. Roedd Ffig 7 yn aml yn cael ei anwybyddu neu ei gysylltu'n anghywir â phobl yn symud i Sbaen i gael tywydd sychach. Roedd sylwadau eraill yn debyg i Gwestiwn 9, e.e. newidiadau i gyfanswm y boblogaeth.

## TAG UG A SAFON UWCH DAEARYDDIAETH

### Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2018

#### Uwch Gyfrannol/Uwch

### UNED 4: THEMÂU CYFOES MEWN DAEARYDDIAETH

#### Arsylwadau cyffredinol

Roedd y papur yn hygyrch i ymgeiswyr o bob gallu ac yn gwahaniaethu'n dda, gan roi'r cyfle i ymgeiswyr i ddangos yn briodol eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynnwys y fanyleb.

Rwy'n teimlo bod y sylwadau canlynol yn werth eu nodi er budd athrawon ac ymgeiswyr y dyfodol:

- Prin iawn oedd y camgymeriadau yn ymwneud â'r cyfarwyddiadau. Serch hynny, roedd amseru'n broblem i rai ymgeiswyr. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gwblhau 3 thraethawd ar ffurf a oedd yn haeddu marciau. Fodd bynnag, roedd trydydd traethawd rhai ymgeiswyr yn fyr iawn. Mae angen i athrawon sicrhau eu bod yn tynnu sylw at bwysigrwydd amseru (o ran Uned 4, mae hyn yn golygu tua 40 munud i bob traethawd; mae hyn yn cynnwys amser cynllunio ac ysgrifennu).
- Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr yn ei chael yn anodd sgorio cyfanswm o dros 40 marc. Roedd hyn am eu bod yn methu â bodloni gofynion AA2 Lefel 3. Roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn rhoi sylw i brif ffocws y cwestiwn yn unig, heb asesu'r materion cyd-destunol ehangach a chysyniadau arbenigol yn ymwneud â'r thema. Yn y canolfannau a oedd wedi trafod y cysyniadau arbenigol, roeddent yn amlwg wedi dweud wrth yr ymgeiswyr am gyfeirio at y rhain a'u trafod yn eu hatebion, ac arweiniodd hyn at farciau uwch.
- Mae'r amcanion asesu ar gyfer Uned 4 yn wahanol iawn i'r papur hen fanyleb G3(a) a dylid sicrhau bod ymgeiswyr yn deall hyn. Mae newid amlwg wedi bod yn y pwysoliadau AA ar gyfer Uned 4. Mae cyfran helaeth o'r marciau sydd ar gael ar gyfer cydran AA2 yr amcanion asesu. Er enghraifft, mae 65% o'r marciau sydd ar gael am y cwestiynau Peryglon Tectonig a 50% o'r marciau sydd ar gael am draethodau Adran B nawr yn cael eu rhoi am AA2.
- Mae'r fanyleb yn cyfeirio'n glir at y cysyniadau arbenigol ac mae'n rhaid eu hintegreiddio'n fwy effeithiol yn y dulliau addysgu a dysgu. Ar ddechrau pob uned UG / Safon Uwch, mae'n nodi: *"O ganlyniad i astudio'r thema hon bydd y dysgwyr yn ennill dealltwriaeth o gysyniadau arbenigol: XXX"* Rhaid i ymgeiswyr roi sylw i'r cysyniadau arbenigol hyn, eu trafod a'u hymarfer yn ystod eu hastudiaethau.
- Aeth ymgeiswyr da i'r afael â dadansoddi cwestiynau cyn ceisio ateb. Roedd hyn yn amlwg, gan fod eu hatebion yn cynnwys mwy o agoriadau dadansoddol a chysyllteiriau, a oedd yn eu galluogi i gyrraedd marciau'r band uchaf a oedd ar gael am AA2.
- Ar y cyfan, roedd strwythur yr atebion yn dda iawn. Cafodd y rhan fwyaf farciau llawn yn adran A a B ar yr agwedd hon, a oedd yn dangos sgiliau da AA3.
- Roedd diffyg diagramau, graffiau a mapiau bras wedi'u hintegreiddio'n dda.

#### Thema 1: Peryglon Tectonig

Hon oedd adran wannaf yr arholiad Uned 4. Roedd llawer o'r arholwyr yn teimlo nad oedd yr adran hon wedi cael digon o sylw oherwydd y cyfyngiadau amser wrth ddarparu manyleb newydd / anghyfarwydd a'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r deunydd hwn wedi cael sylw yn ystod y flwyddyn UG, ac nad oedd yr ymgeiswyr o bosibl wedi edrych eto arno.

- Cw.1** Roedd yr ymgeiswyr yn gallu trafod amrywiaeth o beryglon cynradd ac eilaidd daeargrynfeydd, ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda ar y cyfan (AA1). Defnyddiwyd astudiaethau achos yn aml, a'r enghreifftiau mwyaf poblogaidd oedd Christchurch, 2011; Haiti, 2010 a daeargryn a Tswnami Cefnfor India, 2004. (AA1) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu gwahaniaethu rhwng y raddfa leol a byd-eang (AA2). Roedd yr atebion gorau'n gallu cynnig cymhariaeth rhwng y ddwy raddfa, naill ai drwy edrych ar beryglon neu ddigwyddiadau penodol. Er enghraifft, roedd llawer yn anghytuno â'r gosodiad, gan ddweud bod tswnamiâu'n cael effaith fyd-eang (AA2). Roedd yr atebion da hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod graddfa peryglon yn tueddu i fod wedi'u ffocysu ar lefel leol a rhanbarthol (AA2). Roedd yr atebion gwannaf yn tueddu i fod yn rhy syml, gan gytuno neu anghytuno â'r gosodiad heb roi tystiolaeth ategol.
- Cw.2** Roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn canolbwyntio ar ymdrin ag effeithiau daeargrynfeydd. Ychydig iawn o ymgeiswyr a archwiliodd ddigwyddiadau folcanig. Nid oedd yn anodd o gwbl i'r ymgeiswyr nodi'r gwahaniaeth rhwng ymatebion tymor byr a thymor hir i effeithiau peryglon tectonig. Fodd bynnag, roedd yr atebion yn tueddu i fod yn gyffredinol ac amwys iawn. Roedd yn gyffredin i'r ymgeiswyr nodi: "Ymateb tymor byr fyddai rhoi bwyd, cyflenwadau meddygol a dŵr" neu o ran ymatebion tymor hir: "Gellid defnyddio dyluniad sy'n gwrthsefyll peryglon". Roedd y diffyg astudiaethau achos ategol priodol yn siom. Hefyd, roedd diffyg cydbwysedd, gan fod gormod o bwyslais yn aml ar ymatebion tymor byr, a dim digon ar ymatebion tymor hir. Roedd yr atebion gorau'n cymharu effeithiolrwydd ymatebion tymor byr a thymor hir, gan ddefnyddio astudiaethau achos â gwahanol raddau o effeithiolrwydd i ategu eu pwyntiau (AA2). Yr enghreifftiau mwyaf cyffredin a welwyd oedd Haiti, 2010 (ar gyfer ymatebion tymor byr) a thrafodaethau ynglŷn â dylunio a chynllunio aseismig / technegau paratoi (E.e. y Great Californian Shakeout / ymarferion daeargryn yn Japan / dylunio i wrthsefyll peryglon yn UDA) (AA1). Roedd y rhan fwyaf o'r pwyntiau cymharu'n gysylltiedig â lefel datblygiad gwlad a natur y gweithgaredd tectonig (AA2). Gan fwyaf, yr ymatebion gorau oedd y rhai a oedd yn edrych ar nifer cyfyngedig o enghreifftiau ond yn datblygu gwerthusiad o ystod o elfennau ar yr ymatebion i'r peryglon (AA2). Roedd yr atebion gwan fel rheol yn drafodaeth rhy gyffredinol neu'n cynnwys anghywirdebau ffeithiol.

## Thema 2: Ecosystemau

- Cw.3** Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig ar Gwestiwn 3 ar gyfer y thema hon. Roedd dealltwriaeth gyfyngedig o rôl tymheredd a'i ddylanwad ar strwythur a gweithredoedd ecosystemau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn tueddu i anwybyddu tymheredd yn gyffredinol gan dreulio'r rhan fwyaf o'u hateb yn trafod ffactorau eraill megis dylanwad bodau dynol ar ecosystemau. Mewn nifer bach o atebion, bu'r ymgeiswyr yn trafod lefelau troffig a lefelau NPP (AA1). Un arall o nodweddion yr atebion hyn oedd defnydd effeithiol o enghreifftiau o astudiaethau achos o'r twndra a choedwig law drofannol (AA1). Roedd yr atebion gorau hefyd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau eraill sydd wedi'u nodi yn y fanyleb (lleithder, golau a maetholion sydd ar gael) (AA2) ac roedd yn braf gweld bod diagramau Gershmel wedi'u cynnwys, a oedd yn helpu i ategu'r dadleuon a gyflwynwyd (AA1). Roedd yr atebion gorau hefyd yn trafod cysyniadau arbenigol achosiaeth, cyd-ddibyniaeth, systemau a throthwyau mewn modd effeithiol. (AA2) Roedd yr atebion gwannaf yn tueddu i gytuno â'r gosodiad gan roi trafodaeth arwynebol am wahanol ecosystemau ledled y byd â ffocws ar dymheredd, gan nodi ei bod yn "boethach" neu'n "oerach" mewn gwahanol fannau, heb archwilio dylanwad y gwahaniaethau hyn ar strwythur a gweithredoedd ecosystemau. Roedd yn gyffredin i'r atebion gwannaf fethu ag ystyried ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar ecosystemau. Roedd cydran "strwythur a gweithredoedd" y cwestiwn yn peri anawsterau i lawer o ddisgyblion, ac felly yn aml cafodd y rhan hon o'r cwestiwn ei hanwybyddu.

**Cw.4** Roedd yr atebion i Gwestiwn 4 yn tueddu i fod yn well na'r rhai a welwyd i Gwestiwn 3. Fodd bynnag, y duedd gyffredinol oedd bod yn negyddol, ac roedd diffyg cydbwysedd cyffredinol yn yr atebion. Hefyd, roedd diffyg cefnogaeth gan astudiaethau achos; sylwadau generig oedd y norm. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gwahanol fygythiadau i'r ecosystem (AA1) ond yn ei chael yn anodd nodi rhai o'r ffyrdd cadarnhaol y mae biom twndra'r Arctig yn cael ei ddefnyddio – E.e. rôl pobl frodorol / polisïau ecodwristiaeth. At hynny, ymdriniwyd yn wael â'r gydran cynaliadwyedd. Roedd digonedd o gyfleoedd ar gyfer AA2 yma (e.e. lliniaru / lle / graddfa / amserlenni / graddfa ac ati) ond ni wnaeth llawer gymryd y cyfleoedd hyn. Roedd yr atebion gorau'n deall yn glir beth yw'r twndra a'i nodweddion unigryw (AA1). Roedd yr atebion hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar fanteisio ar adnoddau a thwristiaeth (AA1), archwilio effeithiau'r gweithgareddau hyn mewn modd soffistigedig, a thynnu sylw at y goblygiadau cadarnhaol a negyddol i Dwndra'r Arctig (AA2). Roedd yr atebion gwannach yn archwilio twndra'r Arctig mewn modd generig, gan wneud datganiadau ysgubol heb ddefnyddio dim neu brin ddim ar astudiaethau achos i'w hategu. Os darparwyd dadansoddi, roedd yn ddiafael a heb ei ddatblygu. E.e. "Nid yw hyn yn gynaliadwy" neu "Mae hyn yn ddrwg i'r amgylchedd."

### **Thema 3: Twf a Sialens Economaidd: India neu China neu Datblygiad yn Affrica Is-Sahara**

**Cw.5** Ar y cyfan, atebwyd y cwestiwn hwn yn wael. Roedd dealltwriaeth llawer o'r ymgeiswyr o'r term "nodweddion demograffig" yn gyfyngedig iawn, a'r rhan fwyaf yn cyfeirio mewn termau generig at "twf poblogaeth". Roedd gwybodaeth a dealltwriaeth anghyflawn o ddisbarthiad poblogaeth India a strwythur poblogaeth India. Roedd yn amlwg nad oedd gan yr ymgeiswyr lawer o ddealltwriaeth o rôl polisïau gwleidyddol o ran pennu nodweddion demograffig India. At hynny, roedd yn glir hefyd bod eu dealltwriaeth o ffactorau eraill sydd wedi dylanwadu ar ddemograffeg India yn gyfyngedig, megis ffactorau diwylliannol, economaidd a ffisegol. Roedd yr atebion gorau'n gallu archwilio amrywiaeth o ffactorau sydd wedi dylanwadu ar nodweddion demograffig India (e.e. "Yr Argyfwng" ac anffrwythloni pobl dan orfod / effaith diwygiadau economaidd a gyflwynwyd yn 1991 / globaleiddio / rôl daearyddiaeth ffisegol - gwastadeddau ffrwythlon basn afon Y Ganges yw'r man â'r boblogaeth ddwysaf yn y byd) ac yn dadansoddi eu pwysigrwydd at raddau uchel (AA2). Roedd yr ymgeiswyr gorau'n gallu tynnu sylw at gyd-ddibyniaeth y ffactorau hyn a nodi'r gwahaniaethau gofodol. (AA2) Roedd yr atebion gwan yn dangos diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion demograffig India ac yn tueddu i ffocysu ar faterion fel y system gastiau ond heb ddangos llawer o ddealltwriaeth o'r materion demograffig mae'n eu cyflwyno.

**Cw.6** Unwaith eto, atebwyd y cwestiwn hwn yn wael, â'r ymgeiswyr yn cyflwyno gwybodaeth a dealltwriaeth generig. Roedd y disgyblion yn gallu categoreiddio materion yn ymwneud ag iechyd, ansawdd dŵr a llygredd ac ati, ond nid oedd digon i ategu'r trafodaethau hyn. Roedd y diffyg ffocws ar gymunedau trefol a enwyd yn broblem fawr. Roedd y strategaethau a gyflwynwyd yn tueddu i roi sylw i raddfeydd rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd yr atebion gorau'n gallu trafod amrywiaeth o faterion trefol megis tai, gwastraff, rheoli dŵr a thrafnidiaeth. (AA1) Roedd yr atebion hyn yn dangos cysylltiad clir ag enghreifftiau penodol o ble'r oedd y materion hyn yn digwydd, a'r ymatebion a ddefnyddir i'w hunioni. Roedd y gwerthuso gan fwyaf yn cyfeirio at ddangosyddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol (AA2). Ychydig iawn o fyfyrwyr a gynigiodd gymhariaeth o'r strategaethau a gyflwynwyd, ac roedd methiant i drafod graddfa'r strategaethau'n ddigon manwl. Roedd atebion gwan yn trafod materion sydd ddim yn benodol i ardaloedd trefol, megis diogelwch bwyd ac ynni. Roedd llawer o'r atebion gwannaf a welwyd yn methu'n llwyr ag archwilio ffocws "trefol" y cwestiwn.

- Cw.7** O gymharu â Chwestiwn 5, atebwyd y cwestiwn hwn yn llawer mwy effeithiol, wrth i'r ymgeiswyr ddefnyddio'r Polisi Un Plentyn fel man cychwyn (AA1). Hefyd, cyfeiriodd llawer o'r ymgeiswyr at Linell Heihe–Tengchong, fel modd o ddisgrifio dosbarthiad poblogaeth China (AA1). Roedd hyn yn hwyluso trafodaeth am ddisbarthiad a strwythur poblogaeth China, gan fod ymgeiswyr yn gallu archwilio pwysigrwydd cymharol newidynnau ffisegol megis hinsawdd a thirwedd o'u cymharu â ffactorau diwylliannol, economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol. (AA2) Roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn canolbwyntio ar leoliad a globaleiddio fel y prif themâu allweddol (AA2). Yn gyffredinol, roedd gan yr ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o ffactorau gwleidyddol a sut mae'r rhain wedi dylanwadu ar strwythur demograffig China. Roedd yr atebion gorau'n darparu cydbwysedd ac yn ystyried ffactorau eraill. Er enghraifft, roedd yr atebion gorau yn gyffredinol yn cyfeirio at y Polisi Un Plentyn, datblygiad economaidd yn y Dwyrain oherwydd y "Polisi Drws Agored", dylanwad ffactorau ffisegol megis cyflenwad dŵr a materion diwylliannol. (AA1) Yn yr atebion gwannaf, nid oedd dealltwriaeth dda o ddaearyddiaeth ffisegol China ac roedd y ddealltwriaeth o'r Polisi Un Plentyn a'r system Hukou yn ddryslyd.
- Cw.8** Roedd yr atebion i Gwestiwn 8 yn llawer gwannach na'r rhai a welwyd i Gwestiwn 7. Roedd y Cwestiwn hwn yn cyflwyno materion tebyg i'r problemau a nodwyd eisoes ar gyfer Cwestiwn 6 am India. Unwaith eto, roedd yr ymgeiswyr yn methu â rhoi sylw i'r elfen "cymunedau trefol" ar y cwestiwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn trafod polisiâu cenedlaethol, heb enwi cymunedau trefol penodol. Roedd yn amlwg hefyd bod y termau "gwerthuswch" a "cynaliadwyedd" wedi achosi problem i rai disgyblion. Roedd yr atebion gorau'n canolbwyntio ar faterion a lleoliadau penodol (AA1). Roedd yr atebion yn targedu strategaethau wedi'u henwi i ymdrin â materion cymunedau trefol, ac roedd llawer yn cyfeirio at eco-ddinasoedd megis Tianjin. (AA1) Roedd yr elfen AA2 wedi'i gwneud yn llawer mwy effeithiol yn y cwestiwn hwn nag yng nghwestiwn 6, oherwydd roedd yn ymddangos bod gan yr ymgeiswyr enghreifftiau gwell a'u bod yn gwybod sut i gysylltu'r datrysiadau â'r materion trefol. (AA2) Yn debyg i'r atebion a welwyd i Gwestiwn 6, roedd yr atebion gwan yn trafod materion sydd ddim yn benodol i ardaloedd trefol, megis diogelwch bwyd ac ynni. Roedd llawer o'r atebion gwannaf a welwyd yn methu'n llwyr ag archwilio ffocws "trefol" y cwestiwn.
- Cw.9** Hwn oedd y cwestiwn lleiaf poblogaidd o'r thema Affrica Is-Sahara. Hwn oedd y tro cyntaf i'r testun hwn gael ei asesu ac mewn llawer o achosion roedd diffyg clir o ran gwybodaeth a dealltwriaeth ddwfn am wledydd Affrica Is-Sahara. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn tueddu i archwilio "Affrica" mewn termau generig, sy'n annerbyniol. Roedd rhai ymgeiswyr yn cynnwys enghreifftiau Algeria a'r Aifft, sy'n peri pryder. Ymdriniodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr â'r cwestiwn hwn drwy archwilio pwysigrwydd cymharol y felltith adnoddau a llygredd (AA1 / AA2). Roedd nifer bach o'r ymgeiswyr yn archwilio rôl ecodwristiaeth a blociau masnach (AA1), ond roedd yr atebion hyn yn tueddu i ddangos diffyg dyfnder a manylder. Yn gyffredinol, roedd cysyniadau arbenigol lleoliad a chyd-ddibyniaeth wedi'u datblygu'n dda (AA2), yn enwedig lle roedd myfyrwyr yn canolbwyntio ar un wlad megis Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo (AA1). Roedd atebion gwell yn cynnig cymhariaeth rhwng gwledydd (AA2) ac yn archwilio pwysigrwydd newidynnau ychwanegol megis ffactorau ffisegol, diwylliannol a chymdeithasol, sy'n hybu neu'n rhwystro datblygiad yn Affrica Is-Sahara (AA1). Roedd yr atebion gorau wedi'u cysylltu'n dda â gwledydd a enwyd ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r ffactorau sy'n dylanwadu datblygiad (AA1). Roedd yr atebion gwannaf yn enwi ambell wlad heb drafod astudiaethau achos ag unrhyw ddyfnder. Roedd yr ymgeiswyr gwannaf hefyd yn ei chael yn anodd rhoi ffactorau economaidd ac yn sôn yn gyffredinol am "lefelau datblygiad".



**Cw.10** Roedd hwn yn gwestiwn poblogaidd iawn. Roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn (AA1) a dadansoddi priodol (AA2). Roedd atebion cryf yn gallu ffurfio cysylltiad effeithiol rhwng yr achosion a'r datrysiadau, gan ddangos dealltwriaeth o sut gall datrysiadau unioni amrywiaeth o faterion e.e. byndiau cerrig, cadw uwchbridd a chynyddu ffrwythlondeb pridd (AA1). Roedd gwerthuso'n canolbwyntio gan fwyaf ar gost a materion tymhorol (AA2). Roedd rhai atebion da yn edrych ar raddfa a maint arwynebaidd y strategaethau a nodwyd. (AA2) Yr enghreifftiau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd technegau cadwraeth pridd a dŵr megis defnyddio byndiau cerrig a cherrig hud (Burkina Faso), Y Wal Werdd Fawr (llawer o wledydd AIS), Cynlluniau Plannu Coed megis y Project Acasia FAO (Burkina Faso) a defnyddio stofiau coginio sy'n effeithlon o ran tanwydd, megis y stof effeithlon Changu Changu Moto, sy'n lleihau datgoedwigo ac felly lefelau diffeithdiro (Malaŵi) (AA1). Roedd yr atebion gwannaf yn dangos diffyg ffocws ac yn tueddu i "ddriffio". Er enghraifft, ysgrifennodd rhai ymgeiswyr am effeithiau diffeithdiro, gan fethu ag ateb y cwestiwn a osodwyd. Pan oedd yr ymgeiswyr yn ceisio trafod y strategaethau a roddwyd ar waith, roeddent yn methu â ffocysu ar leoliad penodol ac yn sôn mewn termau generig am "wlad yn Affrica" ac yn gwneud pwyntiau sylfaenol megis "gellir addysgu ffermwyr i helpu i atal diffeithdiro".

**Cw.11** Y broblem fwyaf â'r cwestiwn hwn oedd y diffyg dealltwriaeth o'r term "daearegol". Roedd llawer o arholwyr yn sôn am y broblem hon. Roedd hyn ar adegau'n berthnasol i ganolfannau cyfan, sy'n amlwg yn destun pryder. Roedd rhai ymgeiswyr wedi dehongli daearegol fel "daeryddol", ac felly, roeddent yn cyfeirio at bob ffactor a drafodwyd fel ffactorau daearegol/daeryddol, a oedd yn dirymu eu trafodaeth i raddau. Roedd yr atebion gorau'n amlwg yn deall pwysigrwydd daeareg a'r amodau gofynnol i gynhyrchu mathau penodol o egni e.e. tanwyddau ffosil a phŵer geothermol (AA1). Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn rhoi digon o sylw i ddaeareg, ac roeddent yn trafod rôl ffactorau hinsawdd a thirwedd. Roedd gwynt, llanw a phŵer trydan dŵr yn enghreifftiau cyffredin, ac mewn llond llaw o sgrïptiau, pŵer niwclear (AA1). Roedd yr atebion gorau'n trafod ystod o themâu cysyniadol megis lleoliad, graddfa a chynaliadwyedd (AA2). Roedd yr atebion gwannaf fel rheol yn dangos dealltwriaeth wael o ffactorau daearegol ac yn cynnig trafodaeth arwynebol am bwysigrwydd ffactorau eraill.

**Cw.12** Roedd hon yn farn boblogaidd iawn, o bosibl am ei bod yn gyfarwydd i athrawon a oedd wedi darparu'r uned Egni G4 ar yr hen fanyleb. Roedd rhai problemau â'r termau "cyflenwad" a "galw", gan fod rhai disgyblion yn drysu rhwng y termau. Hefyd, roedd gan rai ymgeiswyr ddealltwriaeth wan o'r term "demograffig". Fodd bynnag, ar y cyfan, atebwyd y cwestiwn hwn yn dda. Roedd yr ymgeiswyr gorau'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda ynglŷn â'r ffactorau demograffig, sy'n dylanwadu ar y galw am egni, ochr yn ochr ag amrywiaeth o ffactorau ychwanegol megis gofynion economaidd, technolegol a chymdeithasol (AA2). Roedd yr atebion hyn yn tueddu i ffocysu ar dwf poblogaeth, y cynnydd mewn incwm gwario a datblygiad economaidd gwledydd BRICS / MINT (AA1). Roedd yr atebion gorau un yn gallu defnyddio tystiolaeth i gyfiawnhau'r casgliadau yr oeddent yn eu llunio ac yn rhoi sylwadau dadansoddol am ddylanwad ffactorau demograffig (AA2). Yn yr atebion gwannaf, roedd diffyg enghreifftiau a dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cymharol ffactorau demograffig i'r newid yn y galw am egni.

**Cw.13** Roedd y cwestiwn hwn yn ddewis poblogaidd arall, o bosibl am ei fod yn gyfarwydd i athrawon a oedd wedi darparu'r uned Tywydd a Hinsawdd G3(a) ar yr hen fanyleb. Cynhyrchodd y cwestiwn hwn rai o'r atebion gorau a welwyd ar y papur, a rhoddwyd dadansoddiadau o safon uchel. (AA2) Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cytuno mai peryglon gwasgedd isel sy'n tueddu i gael yr effaith fwyaf ar unwaith. (AA2) Roedd deunydd astudiaethau achos yn tueddu i fod yn gryfach wrth gyfeirio at beryglon gwasgedd isel. Roedd ymgeiswyr yn archwilio effeithiau corwyntoedd. Corwynt Katrina oedd yr enghraifft a enwyd amlaf. (AA1) Roedd y rhan fwyaf yn canolbwyntio ar ardal Sahel wrth drafod effaith peryglon gwasgedd uchel. (AA1) Yn gyffredinol, darparwyd llai o ffeithiau ac enghreifftiau ar gyfer peryglon gwasgedd uchel. Roedd yr atebion gorau'n tueddu i ddadansoddi'r cwestiwn o safbwynt effeithiau demograffig, economaidd a chymdeithasol. (AA2) Roedd yr atebion gorau hefyd yn defnyddio enghreifftiau penodol i ddadansoddi pwysigrwydd cymharol yr effeithiau hyn ac yna'n llunio cymhariaeth rhwng peryglon gwasgedd isel a gwasgedd uchel. (AA2) Roedd yr atebion gorau hefyd yn trafod ffactorau eraill sy'n cyfrannu at ddifrifoldeb yr effeithiau, megis lefelau datblygiad a graddfa. Roedd hyn yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r cysyniadau arbenigol perthnasol. (AA2) Nid oedd yr atebion gwannaf yn gwneud llawer o gymharu ar wahân i osodiadau arwynebol. Roedd nifer bach o fyfyrwyr yn drysu rhwng systemau gwasgedd isel a gwasgedd uchel, gan olygu nad oeddent yn cael llawer o farciau o gwbl.

**Cw.14** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda ar y cyfan, o bosibl am ei fod yn gyfarwydd i athrawon a oedd wedi darparu'r uned Newid Hinsawdd G1 ar yr hen fanyleb. Roedd rhai atebion yn rhagorol; fodd bynnag, roedd eraill ond yn adrodd rhestr gyffredinol ac arwynebol o strategaethau. Er bod AA1 yn werth 41% yn unig o gyfanswm marciau traethodau Adran B yn Uned 4, mae angen cefnogaeth o safon uchel gan astudiaethau achos o hyd. Yn yr atebion gorau, roedd ymgeiswyr yn archwilio strategaethau ar ystod o raddfeydd (AA2) i gynorthwyo eu gwerthusiad. Hefyd, roedd yr atebion gorau'n dangos dealltwriaeth glir o'r termau allweddol a ddefnyddiwyd yn y cwestiwn ac yn gallu eu trafod yn fanwl gan ddefnyddio enghreifftiau penodol (AA1). Roedd natur gyd-ddibynnol y strategaethau'n elfen allweddol ar atebion band 3. (AA2) Roedd yr atebion gwannaf yn canolbwyntio ar strategaethau heb ddangos gwir ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng lliniaru ac addasu. At hynny, roedd atebion gwan yn cael trafferth i werthuso'r strategaethau a gyflwynwyd ac yn nodi "mae'n gynaliadwy" neu "nid yw'n gynaliadwy" heb ymhelaethu na chynnig tystiolaeth ategol.

# TAG UG A SAFON UWCH DAEARYDDIAETH

## Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2018

### Uwch Gyfrannol/Uwch

#### UNED 5: YMCHWILIAD UNIGOL

##### Arsylwadau Cyffredinol

Roedd yn braf nodi bod y rhan fwyaf o ganolfannau wedi cyflwyno cyfres o ymchwiliadau diddorol a phriodol yn 2018, gan eu cysylltu'n briodol â'r fanyleb. Cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r samplau y cymedrolydd mewn pryd, ac roedd gwaith gweinyddol canolfannau'n aml yn benigamp.

Mae llwyddiant Asesiadau Di-arholiad yn dibynnu'n fawr ar gynllunio a pharatoi gofalus, a chaniatáu i'r ymgeiswyr gael perchenogaeth o'u gwaith. Roedd yn braf nodi bod hyn wedi digwydd yn y rhan fwyaf o achosion, ond nodwyd bod nifer sylweddol o ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar ymchwiliadau heb ddigon o ffocws a bod nifer o ganolfannau'n dal i reoli'r profiad gwaith maes, gan geisio gorfodi eu gwaith maes safonol hwy i fodloni gofynion newydd y fanyleb.

Er ei bod yn ofynnol i ymgeiswyr ddewis eu teitlau'n annibynnol, os yw'r ymgeiswyr yn mynd i ddangos y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyrhaeddiad ar y lefelau uchaf, mae gan ganolfannau gyfrifoldeb i arwain eu hymgeiswyr tuag at feysydd ymchwil priodol a sefydlu'r broses gwaith maes. Er y caniateir darparu thema ar gyfer dosbarth neu grŵp mwy, mae penderfynu, er enghraifft, y bydd yr holl ymgeiswyr yn ymchwilio i dwyni tywod neu amddifadedd yn gyfyngol ynddo ei hun. Rhaid i ymgeiswyr strwythuro eu hymchwiliadau mewn modd ystyriol a chynnwys is-gwestiynau/nodau priodol sy'n gysylltiedig â'u hymchwiliad. Mae'r rhain yna'n arwain y gwaith casglu data a dadansoddi gofynnol ac yn caniatáu iddynt lunio casgliadau ystyrlon. Argymhellir nad yw'r ymgeiswyr yn cynnwys mwy na thri neu bedwar o is-gwestiynau.

Mae'n ofynnol i ganolfannau gyflwyno tri darn o waith papur gyda phob ymchwiliad. Yn gyntaf, Adran 1 Dilysu Ymgeisydd/Athro; rhaid i'r myfyriwr a'r athro lofnodi hwn. Nodwyd mewn rhai achosion nad oedd y ffurflenni hyn wedi'u cyflwyno gyda'r gwaith. Yn ail, dylid cyflwyno Adran 2, Ffurflen Cynnig yr Ymgeisydd gyda phob ymchwiliad. Unwaith eto, mewn nifer o achosion nid oedd y rhain yn bresennol ac weithiau nid oedd yr athro wedi eu llofnodi. Mae'n hanfodol treulio cyfnod priodol yn gweithio drwy'r ffurflen hon gydag ymgeiswyr, oherwydd mae'n gyfle i roi arweiniad a chymorth i sicrhau eu bod ar lwybr clir a phriodol CYN iddynt ddechrau casglu data. Ar y ffurflen cynnig, dylid cyfeirio'n glir at bwyntiau ffocws yn y fanyleb, er enghraifft 1.1.4 Ffactorau sy'n effeithio ar brosesau a thirffurfiau arfordirol, yn hytrach na dim ond 'Tirweddau Arfordirol'. Bydd cymhwyso eu syniadau at rannau penodol o'r fanyleb yn cynorthwyo ymgeiswyr i ffocysu'n briodol ar ddeunydd sydd o fewn y fanyleb, deunydd a fydd yn y pen draw'n ategu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wrth iddynt baratoi am yr arholiadau. Roedd yn destun pryder nodi bod llawer o ffurflenni cynnig wedi'u llenwi'n wael, yn aml heb lawer o wybodaeth. Gofynnir i ganolfannau sicrhau eu bod yn defnyddio'r ffurflenni y gellir eu llwytho i lawr, sydd ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC. Peidiwch â llungopio ffurflenni'n uniongyrchol o'r fanyleb. Atgoffir canolfannau hefyd bod CBAC yn cynnig Gwasanaeth Cyngor ar Deitlau i diwtoriaid i gyflwyno cynigion ymgeiswyr i gael cyngor pellach os dymunant. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn orfodol, ond mae'n cynnig cyfle i athrawon i gael barn uwch gymedrolwyr CBAC am addasrwydd cynigion penodol gan ymgeiswyr. Os dymunwch fanteisio ar y gwasanaeth hwn, cwblhewch y Ffurflen Cyngor ar Deitlau Asesiadau Di-arholiad sydd ar gael ar y wefan gyhoeddus. Hefyd, mae canllaw i ddatblygu teitlau a chwblhau'r ffurflen cynnig ar gael i chi i gyfeirio ato. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys llawer o enghreifftiau o ffurflenni cynnig wedi'u cwblhau a'i nod yw egluro pa fath o arweiniad y gall, ac y dylai, athrawon fod yn ei roi i'w myfyrywyr.

Nodwyd bod llawer o'r ymchwiliadau'n llawer hirach na nifer y geiriau a argymhellir – roedd rhai dros 15000 o eiriau. Rhaid i ganolfannau roi gwybod i ymgeiswyr am y ffaith hon a'u hatgoffa o effeithiau cynhyrchu gwaith sy'n methu â bodloni'r meini prawf asesu. Cyflwynwyd y canllaw o 3-4,000 o eiriau i roi syniad clir i'r ymgeiswyr o hyd a natur yr adroddiad sy'n ofynnol ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad. Bydd ymchwiliad cryno â chyfeiriad a ffocws da'n bodloni meini prawf Band 5 ar gyfer Dadansoddi a Dehongli, Casgliadau a Gofynion Cyflwyniad a Gwerthuso, ond ni fydd un mwydrus ac ailadroddus yn gwneud hynny. Mae sicrhau teitlau hylaw â ffocws i ymchwiliadau pob ymgeisydd, drwy eu trafod yn fanwl cyn dechrau, yn rhywbeth a allai fod o gymorth mawr i'r broses hon.

Roedd yn braf nodi bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi cael cyfarwyddyd da ac wedi dilyn y strwythur a nodwyd ar gyfer yr ymchwiliad (manylion yn y fanyleb). Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir am bawb; roedd rhai heb rifau tudalennau, rhif yr ymgeisydd a'r ganolfan neu'n anwybyddu'r gofynion o ran maint ffont a bylchau rhwng llinellau. Anogwch eich myfyrwyr i ddilyn y strwythur a'r fformat a ragnodwyd ar gyfer yr ymchwiliad a defnyddio system ffurfiol, megis Harvard, wrth gyfeirio at ffynonellau. Roedd hyn wedi'i wneud yn wael yn aml, ac nid oedd gan lawer o'r ymgeiswyr fawr o syniad o sut i wneud cyfeiriadau.

Byddai amlygu pob dalen farciau ymgeisydd ym mhob adran i nodi'r meini prawf priodol lle rhoddwyd marciau o gymorth mawr i'r broses gymedroli, a byddai anodi corff y gwaith hefyd yn helpu'r cymedrolydd i ddeall ble a pham rhoddwyd marciau'r ganolfan. Roedd anodi'r gwaith yn amrywio, o ddim i sylwadau manwl. Lle'r oedd anodi'n bresennol, roedd yn aml yn ddefnyddiol ac yn wrthrychol, gan nodi cryfderau a gwendidau pob ymchwiliad yn glir. Dylid nodi mewn rhai achosion nad oedd y sylwadau bob amser yn cyfateb i'r meini prawf a'r marciau a ddyfarnwyd ar gyfer lefel benodol. Peidiwch â defnyddio papurau Post-it. Nid oedd rhai canolfannau wedi cyflwyno gridiau marcio, ac roedd rhai gridiau'n cynnwys mwy nag un marc. Os yw safoni mewnol wedi digwydd, rhaid i ganolfannau ei gwneud yn glir pa un yw'r marc terfynol i'r cymedrolydd ei ystyried. Gwnaeth nifer o ganolfannau gamgymeriadau wrth adio marciau a'u trosglwyddo i IAMIS, ac mae angen bod yn ofalus yn hyn o beth y flwyddyn nesaf.

## **Mae'r canlynol yn cyfeirio at feysydd penodol yn y cynllun marcio Ymchwiliad Annibynnol a'i gymhwyso:**

### **Cyd-destun**

Roedd yn galonogol gweld ymgeiswyr yn amlwg yn trafod cyd-destun eu hymchwiliadau i ddechrau, gan gysylltu â'r ddamcaniaeth a chreu is-gwestiynau priodol. Roedd hyn yn rhoi fframwaith clir i'r ymchwiliadau. Dylid bod yn ofalus wrth ddewis teitl addas i'r ymchwiliad. Er bod y rhan fwyaf yn gyraeddadwy ac wedi'u cysylltu'n dda â'r fanyleb, roedd rhai'n anhylaw, â ffocws gwan ar leoliad a'r fanyleb. Roedd yn braf gweld llawer yn cynnwys cysylltiadau â damcaniaeth briodol ond weithiau roeddent yn dechrau gwneud hyn ond ddim yn parhau, gan efallai ddangos diffyg dealltwriaeth o'i berthnasedd i'r ymchwiliad. Un ffactor a oedd yn peri pryder oedd bod nifer o ganolfannau'n caniatáu i ymgeiswyr wneud ymchwiliadau'n seiliedig ar ddamcaniaeth nad yw yn y fanyleb, megis Bradshaw neu Burgess. Mae cynnwys y fanyleb ar gylchredau dŵr a charbon yn rhoi pwyslais clir ar hydroleg basnau ac amrywiadau tymhorol. Nid yw astudio newidiadau i nodweddion sianel neu siâp a maint llwyth gwely'n cyd-fynd â'r deunydd astudio hwn. Ni chaniateir ymchwiliadau sy'n canolbwyntio ar fodel Bradshaw yn unig.

Roedd yn braf gweld y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn trafod risg, er bod hyn mewn termau generig yn aml a heb fod wedi'i gysylltu'n dda â'u hymchwiliad. Ychydig o ddealltwriaeth o foeseg a ddangoswyd, a chafodd ei hanwybyddu gan lawer. Mae angen rhoi sylw i hyn yn y dyfodol, oherwydd gallai fod yn ffactor cyfyngol. Roedd cefnogaeth o lenyddiaeth yn aml yn ddarniog a heb gael ei chymhwysu'n dda; roedd llawer yn rhoi rhestr syml o ffynonellau yn eu hatodiad. Roedd gan yr ymgeiswyr rywfaint o gyd-destun lleoliadol cadarn, a oedd yn aml wedi'i gyfiawnhau'n dda, er bod hyn ar adegau'n hir, yn hanesyddol a heb ei gysylltu'n dda â'r ymchwiliad.

### **Dulliau o gynnal ymchwiliad maes**

Roedd y maen prawf hwn yn aml yn un lle'r oedd y canolfannau'n hael wrth roi eu marciau. I gyrraedd Band 5 rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth gref o ddulliau casglu data amrywiol o safon uchel, yn feintiol a/neu yn ansoddol, sy'n berthnasol i'r cwestiwn ymchwil. Dylid cyfiawnhau'r dulliau hyn a nodi cyfraniadau grŵp a/neu unigolion yn glir. Yn aml, lle gwnaethpwyd gwaith grŵp, nid oedd hyn wedi digwydd.

Roedd gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â strategaethau samplu'n amrywiol iawn; mewn rhai achosion gwelwyd dealltwriaeth a chymhwysu da, ac ar adegau cafodd hyn ei anwybyddu neu ei restru'n syml, e.e. "gwnes i hapsamplu", heb esboniad na chyfiawnhad. Roedd yr ymgeiswyr gwannaf yn gweld samplu fel dull o gasglu data yn hytrach na dull o benderfynu ymlaen llaw sut i gasglu'r data.

Roedd y dulliau casglu data'n amrywio; roedd yr ymgeiswyr cryfaf yn dangos amrywiaeth eang o ddulliau, fel arfer wedi'u disgrifio a'u cyfiawnhau'n dda a'u cysylltu'n glir â'r is-gwestiynau. Fodd bynnag, defnyddiodd llawer o ymgeiswyr amrywiaeth gyfyngedig nad oedd bob amser yn casglu data perthnasol i'r dasg dan sylw, ac roedd rhai canolfannau'n caniatáu i ymgeiswyr ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyffredin beth bynnag oedd y dasg – nid oedd hyn o gymorth i annibyniaeth. Disgrifiad da o ddull yw un y gall y darlennydd ei ddyblygu; nid felly'r oedd hi bob amser.

Penderfynodd llawer o ymgeiswyr ddefnyddio tabl i gyflwyno eu dulliau. Roedd hyn yn caniatáu iddynt gysylltu eu dulliau ag is-gwestiynau, disgrifio dulliau, gwerthuso a thrafod cryfderau a gwendidau. Roedd disgrifiadau da hefyd yn defnyddio ffotograffau a diagramau wedi'u hanodi i egluro eu dulliau.

Mae'n ofynnol i ymchwiliadau gyflwyno/dadansoddi data a gwybodaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd. Roedd rhai ymchwiliadau'n dangos diffyg tystiolaeth o gasglu data cynradd a diffyg esboniad o sut y defnyddiwyd ffynonellau eilaidd.

Roedd maint sampl holiaduron yn aml yn amhriodol, a llawer yn hapus i ddefnyddio samplau bach. Os defnyddir holiadur, byddai gweld copi o gymorth, yn ôl pob tebyg yn yr atodiad. Gellid ei anodi i ddangos canlyniadau disgwylidig ac i gyfiawnhau dewisiadau. Roedd yr ymgeiswyr gorau'n addasu eu holiaduron o ganlyniad i gwblhau astudiaeth beilot. Nid oes angen cynnwys yr holl gopïau i ddangos y data crai; gellir crynhoi hyn mewn tabl os oes angen.

### **Cyflwyno data a'r canfyddiadau**

Eto, roedd hwn yn faen prawf asesu lle'r oedd canolfannau'n aml yn hael â'r marciau a ddyfarnwyd. I gyrraedd Band 5, rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio ystod eang o ddulliau cyflwyno data, sy'n gywir, yn briodol ac wedi'u cymhwysu'n dda. Roedd y defnydd o dechnegau cartograffig yn siomedig iawn, ac yn amlwg nid oedd gan lawer o ymgeiswyr fawr o ddealltwriaeth o werth mapiau.

Roedd mapiau lleoliad yn aml yn wael iawn ac o faint stamp post. Mae'n bwysig dangos ble mae lleoliad, ond yn nhermau'r ymchwiliad mae'n llawer pwysicach dangos ble casglwyd y data. Roedd yn braf nodi bod rhai ymgeiswyr wedi defnyddio mapiau mewn ffordd fwy soffistigedig, er enghraifft, lleoli graffiau neu ffotograffau ar y map neu gyflwyno mapiau isolin neu fapiau llif. I fap gael ei ystyried yn gywir, mae angen pennawd clir, graddfa, pwynt gogledd ac allwedd lle bo'n briodol. Os ydynt yn dod o ffynhonnell eilaidd, dylid nodi hyn. Nid oedd llawer o ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf hyn.

Defnyddiodd yr ymgeiswyr amrywiaeth o wahanol graffiau i gyflwyno eu data. I fod yn gywir, rhaid iddynt gynnwys pennawd clir a dylid labelu'r echelinau'n glir â'r unedau priodol. Mae'n hanfodol hefyd defnyddio'r math cywir o graff ar gyfer y data, e.e. gellir defnyddio graffiau llinell i gymharu newidiadau dros amser ar gyfer mwy nag un grŵp. Siartiau cylch yw'r gorau i'w defnyddio wrth geisio cymharu rhannau o un cyfan. Nid yw'r rhain yn dangos newid dros amser. Defnyddir graffiau bar i gymharu pethau rhwng grwpiau gwahanol neu i olrhain newidiadau dros amser. Roedd yn amlwg nad oedd rhai ymgeiswyr yn deall perthnasedd hyn. Ar graffiau gwasgariad, yn ddelfrydol dylid tynnu llinell ffit orau. Roedd rhai ymgeiswyr yn defnyddio graffiau'n ddiwahân, er enghraifft roedd gan un ymgeisydd ddwy dudalen ar hugain o siartiau cylch!

Roedd llawer o ymgeiswyr yn defnyddio ffotograffau, ond nid cystal â phosibl bob amser. Roedd y gorau'n cynnwys teitlau clir ac wedi'u lleoli a'u hanodi'n dda, ac roedd y gwaethaf yn ffotograffau bach maint stamp post ar dudalen heb ddim byd arall. I anodiadau fod yn werthfawr, mae'n rhaid iddynt fod yn ystyrlon, nid dim ond labeli. Roedd y dulliau cyflwyno eraill a ddefnyddiwyd yn cynnwys brasluniau maes, diagramau Wordle, pictogramau, tablau data, plotiau blwch, a mapiau defnyddio tir.

## **Dadansoddi a Dehongli canfyddiadau**

I gyrraedd Band 5, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddadansoddi a dehongli canlyniadau'n soffistigedig, gan ddangos yn glir pam yr oeddent yn briodol ac yn berthnasol i'r cwestiwn ymchwil. Yn ddelfrydol, dylent ddangos peth unigoliaeth a/neu gysylltiadau rhwng yr astudiaeth ac agweddau eraill ar Ddaeryddiaeth, sef synoptigedd. Roedd yn braf nodi bod llawer o ymgeiswyr wedi gwneud hyn.

Yn ddelfrydol, y peth gorau i'w wneud fyddai integreiddio'r adran hon â chyflwyno'r data, gan y gellid cyfeirio'n uniongyrchol at y data fel y'u cyflwynwyd. Gwnaethpwyd hyn i wahanol raddau o lwyddiant; roedd yr ymchwiliadau gwannaf yn gwahanu'r ddau ac felly'n aml yn ei chael yn anodd cynhyrchu dadansoddiad soffistigedig. Roedd y rhan fwyaf o'r ymchwiliadau'n cynnwys dadansoddiadau syml, â'r ymgeiswyr yn disgrifio eu data, a'r ymchwiliadau cryfaf yn cyfeirio'n benodol at rifau ffigyrau. Roedd rhai ymgeiswyr yn cymhwyso eu canfyddiadau'n ôl at y cwestiwn gwreiddiol, a rhai'n cymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth at y modelau yr oeddent yn cymhwyso eu data atynt. Roedd cysylltiadau â meysydd Ddaeryddiaeth eraill yn ddamweiniol ar y cyfan.

Defnyddiwyd rhywfaint o dechnegau ystadegol, a hyn ar sail canolfan-i-ganolfan yn bennaf. Y dechneg fwyaf cyffredin oedd defnyddio cyfernod cydberthyniad Spearman. Dylid sicrhau bod ymgeiswyr yn deall bod angen o leiaf ddeg set ddata er mwyn i'r broses hon fod yn ddibynadwy o gwbl. Yn aml, nid oedd llawer o ddealltwriaeth o arwyddocâd ac roedd llawer yn ei chael yn anodd cysylltu canlyniadau eu dadansoddiad â'u hymchwiliad.

## Casgliadau a gofynion Cyflwyno

I gyrraedd Band 5, mae ar ymgeiswyr angen crynodeb soffistigedig a hyderus sy'n ffurfio casgliadau trwyadl sy'n ateb y cwestiwn ymchwil ac sydd wedi'i danategu gan ddamcaniaeth berthnasol, ac ar yr un pryd rhaid iddynt gyflwyno adroddiad cryno, rhesymegol sydd wedi'i strwythuro'n dda ac yn cyfeirio'n gywir at wybodaeth eilaidd.

Roedd y casgliadau gorau'n rhai a oedd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol, drwy is-benawdau neu is-adrannau â'r cwestiwn neu'r rhagdybiaeth a roddwyd, a oedd ar y cyfan yn eithaf cryno ac yn cyfeirio'n dda at ddata a thueddiadau. Roedd y goreuon yn cael eu dilyn gan gasgliad crynhoi i ddod â'r casgliadau unigol yn ôl at y teitl. Roedd y rhai mwyaf effeithiol yn defnyddio'r ystod lawn o ddata, a drafodwyd yn fanwl, ac roedd yn braf darllen y sylwadau craff yn y gwaith gorau.

Roedd yr ymchwiliadau gwannaf yn eu cyfyngu eu hunain i osodiadau rhy syml ac amlwg yn seiliedig ar setiau data cyfyngedig. Roedd y rhain yn tueddu i fod yn syml ac yn ddisgrifiadol iawn, ac mewn llawer o achosion nid oeddent yn gwneud dim mwy nag ailadrodd y dadansoddiad.

Roedd cyflwyniad yn gyffredinol yn dda ar draws y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr, er nad oedd yr adrannau wedi'u hamlinellu'n glir bob amser. Roedd gormod o ymgeiswyr yn cynnwys eu holl ddata crai ac roedd rhai'n rhoi eu holl graffiau, mapiau a ffotograffau yn yr atodiad. Roedd yn amlwg nad oedd rhai canolfannau wedi briffio eu hymgeiswyr am y strwythur gofynnol, yn enwedig o ran tudalennu a labelu tudalennau.

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallai canolfannau beidio â defnyddio waledi/pocedi plastig; mae cysylltwr syml neu ffolder blastig ysgafn yn ddigon. Roedd llawer o ganolfannau wedi anfon gwaith yr holl ymgeiswyr yn rhydd, ac mewn un achos arweiniodd hyn at gymysgu gwaith llawer o ymgeiswyr. Byddai'n ddymunol ennyn rhywfaint o falchder yn y gwaith a gyflwynir gan ymgeiswyr. Roedd rhai darnau o waith yn dangos camgymeriadau SAG difrifol y gellid bod wedi'u hosgoi'n hawdd drwy ddefnyddio gwirudd sillafu.

## Gwerthusiad

Mae'r adran hon yn yr ymchwiliad yn werth ugain y cant o gyfanswm y marciau a dylid rhoi ystyriaeth briodol iddi, ond nid i'r fath raddau nes ei bod yn mynd yn rhy hir a geiriog ac nad yw'n gryno.

I gyrraedd Band 5, rhaid i'r ymgeiswyr ddangos gwerthusiad hynod effeithiol o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd drwy arsylwi yn y maes. Rhaid iddynt roi gwerthusiad treiddgar o bob cyfnod yn yr ymchwiliad gwaith maes gan gynnwys yr agweddau moesegol ar y gwaith ymchwil yn y maes; rhoi sylwadau myfyrio craff a deallus ynghylch gwaith ymchwil pellach ac ymestyn eu dealltwriaeth ddaearyddol.

Mae'n werth nodi bod y meini prawf yn ymwneud yn bennaf â'r profiad gwaith maes, ac os nad yw'r ymgeiswyr yn dangos rhyw lawer o dystiolaeth o gasglu data cynradd a chynllunio effeithiol ac annibynnol, mae'n anodd iawn cyflawni gwerthusiad da.

Roedd yr ymgeiswyr gorau'n gwerthuso pob cam yn eu hymchwiliad gan ddefnyddio is-benawdau; ond roedd llawer yn ei chael yn anodd gwneud awgrymiadau synhwyrol ar gyfer ymchwilio pellach. Roedd yr awgrymiadau hyn yn aml yn sylfaenol iawn megis gwneud mwy, casglu mwy o ddata, a mynd rywbryd arall. Roedd diffyg gwerthuso go iawn ynglŷn â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth (o'r maes ymchwil) a gafwyd yn y broses o gynnal eu hymchwiliad. Ychydig a gwestiynodd ddilysrwydd eu nodau cychwynnol.

Roedd llawer o fyfyrwyr yn gyndyn i gwestiynu'r ddamcaniaeth a oedd yn sail i'w hymchwiliad, a llawer yn cyfyngu eu gwerthusiad i ddulliau casglu data.

Roedd trafodaeth ynghylch y dimensiynau moesegol yn absennol gan fwyaf ac roedd yn destun pryder mawr hefyd nodi bod llawer o ymgeiswyr wedi treulio diwrnod neu lai'n casglu data ar gyfer eu hymchwiliad, sy'n ei gwneud yn anodd iawn cyflwyno agwedd dymhorol ar y gwaith.

**Noder dyddiad cyflwyno samplau ar gyfer 2019, sef dydd Gwener, Mawrth 29<sup>ain</sup>.**





CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Rhif Ffôn 029 2026 5000  
Ffacs 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)